Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol
National Collaborative Commissioning Unit

# Gwasanaeth Gwella Sicrwydd Ansawdd GIG Cymru

10fed Datganiad Sefyllfa Blynyddol 2021-2022

Yn cynnwys diweddariad ar gyfer y tri Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

2022

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tud 2 |
| Rhagair | Tud 3 |
| Cefndir | Tud 4 |
| Adran 1: Fframweithiau Cenedlaethol | Tud 6 |
| Adran 2: Fframwaith Oedolion | Tud 9 |
| Adran 3: Fframwaith CAMHS | Tud 50 |
| Adran 4: Fframwaith Cartrefi Gofal | Tud 62 |
| Adran 5: Datblygiadau'r Dyfodol | Tud 83 |
| Cydnabyddiaethau | Tud 85 |


# YNGLŶN Â'R DATGANIAD HWN

Termau: Defnyddir 'anabledd dysgu' fel term o fewn hyn y ddisgrifio unigolion â diagnosis clinigol o anabledd. Wrth drafod 'ysbytai iechyd meddwl' neu 'ysbytai anabledd dysgu' mae hyn yn dynodi dosbarthiad ysbyty nid diagnosis cleifion.

Data: Mae rhai ffigurau wedi cael eu hepgor er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o risgiau datgelu yn gysylltiedig â niferoedd bach. Mae rhai canrannau wedi cael eu talgrynnu, sy'n golygu efallai na fydd y swm yn gwneud cyfanswm o 100% ar gyfer rhai ffigurau.

Pobl Nid Rhifau: Er bod yr adroddiad hwn yn cynnwys llawer o graffiau ac ystadegau, rydym yn nodi bod unigolyn agored i niwed sy'n hawdd gofal diogel ac o ansawdd uchel y tu ôl i bob rhif.

Llywodraethu: Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Yn unol â threfniadau corff lletyol yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol) ac yn cael ei rannu gyda phob bwrdd iechyd yn GIG Cymru.

# PWY YDYM NI

Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol GIG Cymru, sydd wedi'i lleoli yn BIP CwmTaf Morgannwg, yw gwasanaeth comisiynu cydweithredol GIG Cymru.

Gweledigaeth yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol yw:

"Arwain gwaith y GIG Cymru o ran sicrhau ansawdd a gwella, a hynny drwy gomisiynu cydweithredol"

Diben yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol yw gwella canlyniadau a phrofiad cleifion drwy'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae'r Uned yn cydymffurfio â chyfres o egwyddorion canllaw fel y dangosir yn ffigur 1 isod.

Dyma amcanion yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol:

- Gwella canlyniadau a phrofiad cleifion.
- O safbwynt claf – deall a mynegi sut mae da yn edrych. Sicrhau bod yr holl wasanaethau a gafaelir yn sicrhau
- Ymwreiddio polisi cenedlaethol mewn arferion lleol.
- Elwa o gysylltiadau cydweithredol.
- Darparu gwerth.
- Newid ymddygiad er mwyn ymwreiddio arloesedd.

*Ffigur 1*




# Y GWASANAETH GWELLA SICRWYDD ANSAWDD (GGSA)

Mae'r Gwasanaeth Gwella Sicrwydd Ansawdd (GGSA) yn Is-adran i'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar wella gofal, ansawdd a gwerth.

Amcanion yr Is-adran yw:

- Sicrhau y darperir gofal diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel sy'n gwella profiad y claf.
- Herio perfformiad darparwr is-safonol yn gadarn.
- Darparu trosolwg, cyngor a chymorth i wella ansawdd gofal
- Hwyluso gweithio cydweithredol rhwng darparwyr a chomisiynwyr gyda'r claf fel canolbwynt y ddarpariaeth o ofal.
- Gwerth am arian i bwrs y wlad.

# RHAGAIR

Rwy'n ysgrifennu'r rhagair hwn ym mis Mehefin 2022, pan fo gwasanaethau yn adfer yn araf yn sgil y pwysau a'r tarfu sylweddol a achoswyd gan bandemig Covid-19. Wrth i'r pandemig gilio, mae'r GGCS wedi dychwelyd yn llawn i'w broses monitro ansawdd arferol.

Rwy'n falch o weld bod 100% o leoliadau ysbyty gyda darparwyr '3Q' am yr ail flwyddyn yn olynol. Rydym yn nodi bod hyd arosiadau yn yr ysbyty wedi cynyddu rhyw fymryn y llynedd, o ganlyniad i darfu ar lwybrau mae'n debyg. Rydym hefyd yn nodi bod rhyw fymryn yn fwy o gleifion wedi cael eu lleoli yn Lloegr y llynedd, ond rydym yn gweithio gyda darparwyr i gynyddu ansawdd a chapasiti gwasanaethau yng Nghymru.

Rydym yn falch o weld gostyngiad o 11% i nifer y digwyddiadau yn ein hysbytai Fframwaith ers y llynedd, ond rydym yn siomedig i weld cynnydd i gwynion ac atgyfeiriadau diogelu a byddwn yn gweithio gyda darparwyr i fynd i'r afael â hyn. Rydym yn nodi bod costau wedi cynyddu yn sylweddol y llynedd a byddwn yn gweithio gyda darparwyr i geisio lliniaru cynnydd i gostau yn y dyfodol gan gynnal safonau a chapasiti.

Mae gennym fwy o leoliadau ar ein Fframwaith cartrefi gofal na'n Fframwaith ysbytai bellach, ac rydym yn falch o weld llawer o Awdurdodau Lleol yn defnyddio mwy ar y Fframwaith yn y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn falch bod 2 o bob 3 lleoliad cartref gofal o fewn 10 milltir i'r cod post arwyddocaol a ddewiswyd gan breswylwyr.

Dyma ein datganiad sefyllfa blynyddol olaf yn ein Fframwaith cenedlaethol degawd oed presennol wrth i ni symud, yn 2022, ymlaen i'n fframwaith newydd. Mae'r fframwaith newydd yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac yn cael ei arwain gan wybodaeth ac rydym yn gynhyrfus am y ffaith y bydd yn cynorthwyo'r GGCS i weithio mewn partneriaeth â dinasyddion, darparwyr a chomisiynwyr i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu i bobl Cymru gan gefnogi gwelliannau pellach i safonau gofal

Shane Mills
Cyfarwyddwr Ansawdd ac Iechyd Meddwl / Anableddau Dysgu

# CEFNDIR

## Cyflwyniad

Cyn 2012, comisiynwyd gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu ysbyty a gofal a ddarperir yn allanol ar wahân gan bob Bwrdd Iechyd neu drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Arweiniodd y trefniadau comisiynu hyn at wahaniaethau o ran costau, rhwymedigaethau cytundebol, safonau a rheoli perfformiad ar draws GIG Cymru. Cylch gwaith unigolion neu dimau bach o fewn sefydliadau oedd goruchwylio'r gwasanaethau a gomisiynir hyn, gydag ychydig neu ddim cydweithredu. Nododd adolygiad annibynnol yn 2012 bod y defnydd o'r sector annibynnol a gwasanaethau GIG Lloegr gan GIG Cymru cyn datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol yn aneffeithlon, yn aneffeithiol ac yn anghyson.*

Ym mis Mawrth 2012, lansiwyd Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Diogelwch Canolig ac Isel, ac roedd yn llwyddiannus o ran gwella ansawdd, cynyddu sicrwydd a lleihau costau. Yn sgil hynny, roedd Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd GIG Cymru o'r farn bod cyfres ehangach o wasanaethau fel adsefydlu dan glo ac agored angen y lefel hon o sicrwydd a lansiwyd Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol GIG Cymru ar gyfer Ysbytai Iechyd Meddwl Oedolion ac Anabledd Dysgu ym mis Ebrill 2014. Ym mis Hydref 2015, lansiwyd Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Diogelwch Isel a Gwasanaethau Ysbytai Acíwt nad ydynt yn rhai GIG ar gais gan Raglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc.

IYm mis Hydref 2016, lansiwyd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Oedolion mewn Cartrefi Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Chartrefi Gofal â Nyrsio ac mae'n cynnig proses a thelerau cytundebol ag ansawdd, safonau a lleoliadau cyson i bob Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol gomisiynu lleoliadau.

** Tayside Centre for Organisational Effectiveness (2013). Review of the NHS Wales Mental Health &Learning Disability SecureServices Procurement Project,a retrospective view. Caerdydd: GIG Cymru.

## Statws Cyfreithiol

Mae Fframweithiau Cydweithredol Cenedlaethol GIG Cymru yn gytundeb a dull ffurfiol a ddatblygwyd gan Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol GIG Cymru a GIG Cymru: Caffael Partneriaeth Cyd-wasanaethau.

Mae hyn yn gallu pob sefydliad GIG Cymru ac Awdurdod Lleol sydd wedi ymrwymo i gaffael a rheoli perfformiad gwasanaethau yn unol â safonau, costau, telerau ac amodau contract a gytunwyd ymlaen llaw mewn modd cydsyniol yn unol â Rheoliadau Caffael yr UE a'r DU a Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol.

Yn gweithio mewn partneriaeth â Phartneriaeth Cyd-wasanaethau GIG Cymru

# CEFNDIR

## Comisiynu

Mae'r Fframweithiau Cydweithredol Cenedlaethol yn darparu'r dull cyflawni ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Darperir y gwasanaethau hyn pan fydd claf neu breswylydd yn cael ei roi trwy brosesau'r Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ac y bydd cytundeb lleoliad unigol yn cael ei gynhyrchu, ac felly contract yn cael ei roi ar waith, rhwng y comisiynydd (Bwrdd Iechyd, Awdurdod Lleol neu Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru) a darparwr.

## Manteision

Datblygwyd y Fframweithiau Cydweithredol Cenedlaethol i alluogi:

- Darpariaeth gwasanaethau ansawdd uchel gyson a chynaliadwy a gwell canlyniadau i unigolion.
- Cyfeiriadur cymeradwy o ddarparwyr â chymwysterau priodol sy'n ariannol hyfyw i fodloni meini prawf ansawdd, gwasanaeth a chost penodedig.
- Sefydlu safonau gofal wedi'u teilwra, telerau/amodau contract safonol, a fframwaith prisio tryloyw.

## Cwmpas

Mae cwmpas y gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys o dan y Fframweithiau Cydweithredol Cenedlaethol yw ysbytai Annibynnol a GIG Lloegr a chartrefi gofal annibynnol yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Iechyd meddwl diogelwch canolig
- Anabledd dysgu diogelwch canolig
- Iechyd meddwl diogelwch isel
- Anabledd dysgu diogelwch isel
- Iechyd meddwl ffordd allan wedi'i rheoli (adsefydlu dan glo ffurfiol)
- Anabledd dysgu ffordd allan wedi'i rheoli (adsefydlu dan glo ffurfiol)
- Iechyd meddwl ffordd allan heb ei rheoli (adsefydlu agored ffurfiol)
- Anabledd dysgu ffordd allan heb ei rheoli (adsefydlu agored ffurfiol)
- Cartrefi gofal heb iechyd meddwl staffio parhaus
- Cartrefi gofal heb anabledd dysgu staffio parhaus
- Cartrefi gofal ag iechyd meddwl staffio parhaus
- Cartrefi gofal ag anabledd dysgu staffio parhaus
- Cartrefi gofal ag iechyd meddwl nyrsio
- Cartrefi gofal ag anabledd dysgu nyrsio
- Iechyd meddwl plant a'r glasoed diogelwch isel
- Iechyd meddwl plant a'r glasoed acíwt

# ADRAN 1

## Trosolwg o bob un o'r tri Fframwaith Cenedlaethol

# GWEITHGARWCH PRESENNOL AR DRAWS Y FFRAMWEITHIAU

Mae Ffigur 2 yn dangos y gweithgarwch cyffredinol (derbyn a rhyddhau) drwy'r tri Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.




*Ffigur 2: Gweithgarwch cyffredinol derbyn a rhyddhau 2021-2022*

Ar gyfer pob Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol, cofnodwyd y niferoedd derbyn a rhyddhau canlynol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth2022.

- Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Ysbytai Iechyd Meddwl Oedolion ac Anabledd Dysgu.

  - 339 **(Cleifion presennol a derbyniadau 31 Mawrth 2022)**
  - 218 **(Nifer a ryddhawyd 01 April 2021 i 31 Mawrth 2022)**
  - Cyfanswm **557**

- Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Diogelwch Isel a Gwasanaethau Ysbytai Acíwt nad ydynt yn rhai GIG Cymru.

  - 6 **(Cleifion presennol a derbyniadau 31 Mawrth 2022)**
  - 21 **(Nifer a ryddhawyd 01 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022)**
  - Cyfanswm 27

- Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Oedolion (18 oed a hŷn) mewn Cartrefi Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Chartrefi Gofal â Nyrsio ar gyfer y GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

  - **370(Cleifion presennol a derbyniadau 31 Mawrth 2022)**
  - **76(Nifer a ryddhawyd 01 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022)**
  - Cyfanswm 446

# GWEITHGARWCH FFRAMWAITH 5 MLYNEDD

Mae Ffigur 3 yn dangos y gweithgarwch (yr holl achosion o dderbyn a rhyddhau) ar bob un o’r tri Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ystod 2017-18, roedd 637 o gleifion / preswylwyr a gafodd sicrwydd o dan y Fframweithiau Cenedlaethol, roedd 674 yn ystod 2018- 2019, roedd 711 yn ystod 2019/20, roedd 928 yn ystod 2020/21 ac roedd 1030 yn ystod 2021/22, cynnydd o 62% ers 2017-18 a chynnydd o 11% ers 2020-21




*Ffigur 3: Gweithgarwch Fframwaith 2017 i 2022*

# ADRAN 2

## Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Ysbyty Iechyd Meddwl i Oedolion ac Anableddau Dysgu i Oedolion

# TROSOLWG O'R FFRAMWAITH YSBYTAI OEDOLION




*Map1 – Lleoliad daearyddol bras ysbytai sy'n gofalu am gleifion sy'n oedolion*

## Darparwyr

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 24 o gwmnïau â 76 o safleoedd ysbyty unigol yn darparu neu'n gallu darparu gwasanaethau yn rhan o'r Fframwaith Ysbytai Oedolion.

Mae'r map ar y chwith yn dangos lleoliad daearyddol pob safle ysbyty.

# CURRENT STATE

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 339 o gleifion yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion.
Mae hyn yn cymharu â 342 o'r flwyddyn flaenorol, sy'n cyfateb i ostyngiad o 0.9% i nifer y cleifion a dderbyniodd sicrwydd yn. O'r 339 o gleifion a dderbyniodd sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion ar 31 Mawrth 2022:

- roedd 79 (23%) o gleifion yn gyfrifoldeb i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- roedd 77 (23%) o gleifion yn gyfrifoldeb i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- roedd 45 (13%) o gleifion yn gyfrifoldeb i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- roedd 60 (18%) o gleifion yn gyfrifoldeb i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- roedd 17 (5%) o gleifion yn gyfrifoldeb i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- roedd 22 (6%) o gleifion yn gyfrifoldeb i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys
- roedd 39 (12%) o gleifion yn gyfrifoldeb i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

# TUEDD GENEDLAETHOL

Mae Ffigur 4 yn dangos nifer y cleifion a dderbyniodd sicrwydd ar ddiwedd y flwyddyn ar draws 9 mlynedd.




*Ffigur 4: Cymhariaeth o'r Tueddiad Cenedlaethol*

# TUEDD GENEDLAETHOL 9 MLYNEDD

Ceir pedair 'haen' o wasanaeth yn y Fframwaith Ysbytai Oedolion, sef ysbytai diogelwch canolig, ysbytai diogelwch isel, ysbytai ffordd allan wedi'i rheoli ac ysbytai ffordd allan heb ei rheoli.

## Medium Secure Hospitals

Mae gwasanaethau diogelwch canolig wedi'u cynllunio yn benodol i ddiwallu anghenion cleifion sy'n cyflwyno risg ddifrifol i'w hunain neu i bobl eraill, wedi'i chyfuno a'r potensial i ddianc. Mewn llawer o achosion, bydd cleifion mewn gofal diogelwch canolig wedi cael eu hatgyfeirio i'r ysbyty gan wasanaethau llys.

## Ysbytai Diogelwch Isel

Darperir gwasanaethau diogelwch isel ar gyfer y cleifion hynny sydd ag anghenion cymhleth ac na ellir gofalu amdanynt yn ddiogel mewn unedau nad ydynt yn ddiogel. Cedwir y cleifion hyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl fel rheol ac maent yn cyflwyno lefel o risg i'w hunain a phobl eraill sy'n gofyn am fesurau diogelwch amgylcheddol arbenigol.

## Ysbyty Ffordd Allan Wedi'i Rheoli

Mae gwasanaethau ffordd allan wedi'i rheoli, a alwyd yn 'adsefydlu dan glo' gynt, yn darparu gwasanaethau ail-alluogi i gleifion ag anghenion cymhleth ac ymddygiadau heriol. Mae gan yr unedau hun ddrysau wedi'u cloi neu y gellir eu cloi i atal ymadawiadau heb eu cynllunio.

## Ysbyty Ffordd Allan Heb ei Rheoli

Mae gwasanaethau ffordd allan heb ei rheoli, a alwyd yn 'adsefydlu agored' gynt, yn darparu gwasanaethau ail-alluogi i gleifion ag anghenion tymor hwy. Yn gyffredinol, mae'r unedau hyn yn cloi'r mynedfeydd/allanfeydd yn y nos yn unig at ddibenion diogelwch.

# TUEDDIAD CENEDLAETHOL 9 MLYNEDD PARHAD

Mae Ffigur 5 yn dangos nifer y cleifion ym mhob haen o wasanaeth bob blwyddyn ar ddyddiad penodol (31 Mawrth) rhwng 2014 a 2022. Dros y naw mlynedd diwethaf, bu newidiadau penodol rhwng mathau o wasanaethau fel:

- Gostyngiad o 22% i nifer y cleifion mewn ysbytai diogelwch canolig ers 2014.
- Gostyngiad o 8% i nifer y cleifion mewn ysbytai diogelwch isel ers 2014.
- Cynnydd o 44% i nifer y cleifion mewn ysbytai ffordd allan wedi'i rheoli ers 2014.
- Gostyngiad o 25% i nifer y cleifion mewn ysbytai ffordd allan heb ei rheoli ers 2014.




*Ffigur 5: Tueddiad Cenedlaethol 9 mlynedd*

# TUEDDIAD BWRDD IECHYD 9 MLYNEDD

Dangosir y tueddiad o ran nifer y cleifion o bob Bwrdd Iechyd a dderbyniodd sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion ar 31 Mawrth bob blwyddyn rhwng 2014 a 2022 yn Ffigur 6.

Gan gymharu'r tueddiad wyth mlynedd ers 2014, cafwyd gostyngiad mewn dau Fwrdd Iechyd a chafwyd cynnydd mewn tri Bwrdd Iechyd o ran nifer y cleifion a dderbyniodd ofal o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion rhwng y blynyddoedd hyn.

Gellir dangos cymhariaeth â 2020-21 o'r byrddau iechyd yn y rhestr ar y dde.

Bu cynnydd o 14% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ers 2014a chynnydd o 16% ers y llynedd.

Bu cynnydd o 24% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladrers 2014 a gostyngiad o 17% ers y llynedd.

Bu gostyngiad o 13% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ers 2014a chynnydd o 15% ers y llynedd.

Bu cynnydd o 36% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ers 2014 a gostyngiad o 10% ers y llynedd.

Bu gostyngiad o 50% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ers 2014ac arhosodd y canran yr un fath ers y llynedd.

Roedd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yr un canran â 2014 a bu cynnydd o 16% ers y llynedd.

Bu gostyngiad o 30% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ers 2014ac arhosodd y canran yr un fath ers y llynedd.




*Ffigur 6: - Tueddiad Naw Mlynedd Genedlaethol o Leoliadau fesul Bwrdd Iechyd*

# DOSBARTHIAD ANABLEDDAU DYSGU AC IECHYD MEDDWL

O'r 339 o gleifion a dderbyniodd sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion ar 31 Mawrth 2022, roedd y rhai y gofalwyd amdanynt mewn Ysbytai Iechyd Meddwl yn 86% o'r cyfanswm.

Mae'r rhai y gofalir amdanynt mewn Ysbytai Anabledd Dysgu yn 14%, sy'n ostyngiad o 4% o 18% yn 2021

Mae Ffigur 7 yn dangos cymhariaeth o gleifion sydd wedi derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion dros y 9 mlynedd diwethaf fesul arbenigedd.

Mae Ffigur 8 yn dangos dosbarthiad cleifion a leolwyd mewn ysbytai iechyd meddwl ac anabledd dysgu ar 31 Mawrth 2022 fesul haen gwasanaeth.




*Ffigur 7: Dosbarthiad Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Tueddiad Naw Mlynedd*




*Ffigur 8:Dosbarthiad Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu fesul Haen Gwasanaeth*

# DOSBARTHIAD CLEIFION GWRYWAIDD A BENYWAIDD

O'r 339 o gleifion a dderbyniodd sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion ar 31 Mawrth 2022, roedd 70% (236) o gleifion yn wrywaidd ac roedd 30% (103) yn fenywaidd.

Gostyngodd cyfran y cleifion gwrywaidd 2% a chynyddodd cyfran y cleifion benywaidd 1% yn 2021-2022.

Mae Ffigur 9 yn dangos cyfran y cleifion gwrywaidd a benywaidd a dderbyniodd sicrwydd dros y 9 mlynedd diwethaf.

Mae Ffigur 10 yn dangos dosbarthiad cleifion gwrywaidd a benywaidd a dderbyniodd sicrwydd ar 31 Mawrth2022 ym mhob haen gwasanaeth.







*Ffigur 9: Dosbarthiad Gwrywaidd a Benywaidd Tueddiad Naw Mlynedd*

*Ffigur 10: Dosbarthiad Gwrywaidd a Benywaidd fesul Haen Gwasanaeth*

**Yn dynodi nad oedd gwasanaethau Ffordd Allan Wedi'i Rheoli a Heb ei Rheoli yn rhan o'r Fframwaith yn 2013/14*

# DOSBARTHIAD DAEARYDDOL

O'r 339 o gleifion a dderbyniodd sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion ar 31 Mawrth 2022, lleolwyd 67% (227) yng Nghymru a lleolwyd 33% (112) yn Lloegr fel y dangosir yn Ffigur 11 isod.




*Ffigur 11: Dosbarthiad Cymru a Lloegr 2021 i 2022*

Mae Ffigur 12 yn dangos y gymhariaeth o gleifion a dderbyniodd sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion dros y 9 mlynedd diwethaf yng Nghymru a Lloegr.




*Ffigur 12: Tueddiad Naw Mlynedd Lleoliadau yng Nghymru a Lloegr*

# PELLTER

Mae'r Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd a Gwella yn dymuno sicrhau bod y Fframweithiau Cydweithredol Cenedlaethol, ble bynnag y bo'n bosibl a chan roi sylw dyledus i ansawdd, yn darparu lleoliadau sydd mor agos â phosibl i'r gymuned y mae cleifion yn ei dewis.O fewn y broses leoli, rydym yn ei gwneud yn orfodol bod y comisiynydd yn cofnodi 'cod post arwyddocaol' ar gyfer y claf a chyfrifir y pellter i'r darparwr o'r pwynt daearyddol hwn.

Derbyniwyd 101 (46%) o gleifion gan ddarparwr llai na 50 milltir o'r cod post arwyddocaol. Lleolwyd 38 (18%) o gleifion rhwng 50 a 100 o filltiroedd o'r cod post arwyddocaol. Mae 79 (36%) o gleifion mwy na 100 milltir o'r cod post arwyddocaol.

.

Mae Ffigur 13 yn dangos y pellter yn ôl haen gwasanaeth o'r cod post arwyddocaol.




*Fifgur 13: Pellter fesul Arbenigedd o'r Cod Post Arwyddocaol*

Mae Ffigur 14 yn dangos y pellter o'r cod post arwyddocaol yn ôl lleoliadau Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu llai na 50 milltir, rhwng 51a 100 milltir a thros 100 milltir o'r cod post arwyddocaol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.




*Ffigur 14: Pellter yn ôl Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu o'r Cod Post Arwyddocaol*

# HYD AROSIADAU A GWBLHAWYD




O'r 218 o gleifion a ryddhawyd o'r Fframwaith Ysbytai Oedolion rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, dyma gyfanswm hyd yr arosiadau gyda'u darparwr terfynol (efallai fod cleifion wedi cael eu derbyn o ddarparwr arall) cyn cael eu rhyddhau:

- Roedd gan 20% (44) o gleifion hyd arhosiad o lai na 6 mis o'i gymharu â 30% (57) o gleifion yn 2021-22.
- Roedd gan 24% (53) o gleifion hyd arhosiad rhwng 6 mis a blwyddyn o'i gymharu ag 20% (38) o gleifion yn 2021-22.
- Roedd gan 31% (68) o gleifion hyd arhosiad rhwng 1 a 2 flynedd o'i gymharu â 23% (45) o gleifion yn 2021-22.
- Roedd gan 13% (27) o gleifion hyd arhosiad rhwng 2 a 3 blynedd o'i gymharu â 12% (24) o gleifion yn 2021-22.
- Roedd gan 6%(13) o gleifion hyd arhosiad rhwng 3a 5 mlynedd o'i gymharu â 10%(20) o gleifion yn 2021-22.
- Roedd gan 4% (9) o gleifion hyd arhosiad rhwng 5 a 7 mlynedd o'i gymharu â 4%(7) o gleifion yn 2021-22.
- Roedd gan 2% (4) o gleifion hyd arhosiad rhwng 7 a 10 mlynedd o'i gymharu â 2% (3) o gleifion yn 2021-22.

# HYD CYFARTALOG AROSIADAU FESUL HAEN GWASANAETH

Mae Ffigur 15 yn nodi manylion hyd arosiadau a gwblhawyd Cleifion a dderbyniodd sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion a ryddhawyd rhwng 1 Ebrill 2020a 31 Mawrth 2022 fesul haen gwasanaeth.

Mae Ffigur 16 yn dangos hyd arhosiad cyfartalog 218 o gleifion a ryddhawyd o'r Fframwaith Ysbytai Oedolion rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth2022.




*Ffigur 15: Hyd Cyfartalog Arosiadau Fesul Haen Gwasanaeth mewn Misoedd*




*Ffigur 16: Hyd Arosiadau fesulHaen Gwasanaeth*

# HYD CYFARTALOG AROSIADAU FESUL HAEN GWASANAETH

Mae Ffigur 17 yn dangos hyd cyfartalog arosiadau fesul math penodol o wasanaeth mewn misoedd ac yn dangos mai Anabledd Dysgu Adsefydlu Agored (Ffordd Allan Heb ei Rheoli) Gwrywaidd yw'r hiraf, sef 62 mis (5.1 mlynedd).
*Sylwer bod yr arhosiad hiraf ar gyfer un rhyddhad defnyddiwr yn unig.




*Ffigur 17: Hyd Arosiadau Cyfartalog Fesul Haen Gwasanaeth mewn Misoedd*

# DARPARU SICRWYDD

Mae Gwasanaeth Gwella Sicrwydd Ansawdd y GIG yn rhan o'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol ac yn gweithio fel tîm cenedlaethol mewn partneriaeth â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru: Caffael i reoli perfformiad darparwyr fframwaith masnachol a gomisiynwyd yn gydweithredol ac yn genedlaethol.

Mae Ffigur 18 ar y dudalen nesaf yn dangos trosolwg o'n proses sicrhau ansawdd a sut yr ydym yn dyfarnu ein tystysgrifau ansawdd (a ddangosir ar y dde).

**Tystysgrif sgôr Q**

**Mae'n rhaid lleoli hon wrth y fynedfa i'r uned**

**TWYLLO FFAITH**



# PROVIDING ASSURANCE

- Timau lleol / chwythwyr chwiban
- Casglu gwybodaeth
- Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGC) / y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) / Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

- Preswylwyr wedi'u hymgysylltu
- Perthynas therapiwtig
- Gweithgarwch ystyrlon
- Amgylchedd o ansawdd
- Staff galluog




- Nodiadau preswylwyr / cynlluniau gofal
- Meddyginiaeth / siartiau meddygol
- Rotas / cofnodion staff




*Ffigur 18 Trosolwg o'n proses sicrhau ansawdd*

# CYNNAL ANSAWDD GOFAL

Mae'n ofyniad i ddarparwyr gynnal y safonau gofal fel y'u nodir yn y Fframwaith Ysbytai Oedolion. Ceir 201 o Safonau wedi'u teilwra i Gymru yn seiliedig ar dystiolaeth orau, dysgu o brofiad ac arferion clinigol da wedi'u grwpio yn 24 maes.

Mae Ffigur 19.1 & 19.2 yn nodi'r cyflawniad cyfartalog ar gyfer pob un o'r 24 maes yn y Fframwaith Ysbytai Oedolion a archwiliwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 wedi'u trefnu yn ôl y gwahaniaeth o gyflawniad y flwyddyn cynt.

**Ffaith GGSA**

**Aseswyd 8,273 o safonau unigol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022**

**TWYLLO FFAITH**

| Maes Safonol | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Gwahaniaeth 2021-2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arsylwadau Cleifion Cefnogol a Therapiwtig | 85% | 88% | 77% | 92% | 84% | 94% | 87% | -7% |
| Cynllunio ac Ymateb Brys | 96% | 95% | 91% | 97% | 96% | 100% | 96% | -4% |
| Llywodraethu ac Atebolrwydd Cadarn | 95% | 90% | 88% | 94% | 87% | 95% | 92% | -3% |
| Asesu Risg a Rheoli Risg | 82% | 89% | 80% | 90% | 90% | 97% | 94% | -3% |
| Gweithgareddau Ystyrlon a Diwylliannol Briodol | 84% | 90% | 96% | 96% | 95% | 98% | 95% | -3% |
| Ymweld a Chadw Cysylltiad | 94% | 96% | 88% | 98% | 99% | 100% | 97% | -3% |
| Iechyd Corfforol a Hybu Iechyd a Llesiant | 76% | 79% | 79% | 85% | 88% | 96% | 94% | -2% |
| Ymyriadau ffisegol / Gwahanu | 90% | 89% | 92% | 98% | 89% | 95% | 93% | -2% |
| Amgylchedd | 80% | 83% | 97% | 91% | 91% | 95% | 93% | -2% |
| Staff | 91% | 89% | 84% | 93% | 82% | 94% | 92% | -2% |
| Gwella Profiad Cleifion o Ofal, gan gynnwys Cwynion Ansawdd a Bodlonrwydd | 88% | 91% | 87% | 92% | 89% | 96% | 95% | -1% |
| Parchu Preifatrwydd, Urddas, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 92% | 95% | 88% | 98% | 97% | 99% | 98% | -1% |
| Ymyriadau Ffarmacolegol a Rheoli Meddyginiaethau | 85% | 90% | 80% | 90% | 90% | 94% | 93% | -1% |

*Ffigur 19.1: Cyflawniad Cyfartalog Safonau Ar Draws yr Holl Ddarparwyr a Adolygwyd (Yn Parhau Drosodd)*

Canlyniad y 62 o adolygiadau oedd bod 43 (69%) o unedau angen un neu fwy o gamau unioni ac nad oedd 19 (31%) o unedau angen unrhyw gamau unioni.

Cyflwynwyd 'Hysbysiad Gwella Perfformiad' i 99 o unedau lle'r oedd angen un neu fwy o gamau unioni. Ar draws yr holl Hysbysiadau Gwella Perfformiad roedd cyfanswm o 500 o gamau gweithredu unigol (dangosir enghraifft yn Ffigur 20).

# CYNNAL ANSAWDD GOFAL

| Maes Safonol | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Gwahaniaeth 2021-2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 86% | 92% | 88% | 97% | 95% | 99% | 99% | - |
| Cynllunio Gofal a Thriniaeth | 71% | 73% | 66% | 86% | 86% | 87% | 87% | - |
| Diogelwch a Lles Cleifion | 96% | 96% | 80% | 96% | 93% | 90% | 90% | - |
| Gwyliau | 94% | 94% | 91% | 96% | 95% | 96% | 96% | - |
| Maetheg | 91% | 93% | 97% | 96% | 96% | 96% | 97% | +1% |
| Dyfeisiau Meddygol ac Offer Dadebru | 74% | 72% | 77% | 92% | 84% | 94% | 96% | +2% |
| Cyfarfod Tîm Amlddisgyblaeth | 65% | 70% | 68% | 79% | 64% | 90% | 92% | +2% |
| Ymgysylltiad a Bodlonrwydd Cleifion | 88% | 91% | 87% | 92% | 89% | 91% | 93% | +2% |
| Cynllunio Rhyddhad a Phontio i Wasanaethau Oedolion | 93% | 96% | 93% | 97% | 97% | 95% | 98% | +3% |
| Ymyriadau Seicolegol/Therapiwtig | 92% | 96% | 82% | 95% | 95% | 88% | 92% | +4% |
| Cofnodion Clinigol | 73% | 72% | 56% | 76% | 80% | 74% | 86% | +12% |

*Ffigur 19.2: Cyflawni Cyfartalog Safonau Ar Draws yr Holl Ddarparwyr a Adolygwyd*

# CYNNAL ANSAWDD GOFAL

## Camau Gwella

Adolygodd y GGSA 99 o unedau mewn 49 o safleoedd Ysbyty yn 2021-22. Mae hyn yn 40% o'r unedau yn y Fframwaith Ysbytai Oedolion. Mae Ffigur 20 isod yn dangos enghraifft o Gamau Gwella'r Fframwaith Ysbytai Oedolion.

**Maes: Hybu Iechyd a Llesiant Corfforol**

| Safon Gofal | Canlyniad Archwilio | Sicrwydd sy'n Ofynnol |
|---|---|---|
| Mae Cynllun(iau) Hybu Iechyd a Llesiant yn cael eu datblygu a fydd (i) yn nodi un neu fwy o ganlyniadau ar gyfer pob angen a nodir a (ii) yn nodi un neu fwy o ymyriadau / rhaglenni i ymgymryd â nhw a / neu eu cynnal i gyflawni'r canlyniadau hyn. | Nid oedd y GGSA yn fodlon bod yr holl gynlluniau hybu iechyd a llesiant yn gyfredol ac yn adlewyrchu nodau'r claf unigol. Dywedodd un claf yn ystod yr adolygiad misol o'i chynllun gofal ei bod yn dymuno cael cymorth a chefnogaeth i roi'r gorau i smygu, ac o ran ei hiechyd meddwl a'i hanhwylderau bwyta. Nid oedd y cynllun yn adlewyrchu'r ceisiadau hyn ac ni welodd y GGSA dystiolaeth bod camau wedi cael eu cymryd i gynorthwyo'r claf yn y meysydd hyn. | Bydd y darparwr yn cyflwyno tystiolaeth i ddangos ei gamau gweithredu o ran y mater a sut y bydd yn gwella o ran y safon hon yn y dyfodol. |

*Ffigur 20: Enghraifft o Gam Gwella'r Fframwaith Ysbytai Oedolion*

# CYNNAL ANSAWDD GOFAL

O'r 41 o Hysbysiadau Gwella Perfformiad a gyflwynwyd, rhodiodd y darparwr sicrwydd yn 31 (76%) o'r achosion bod yr holl gamau unioni wedi cael eu cymryd o fewn yr amserlen ddynodedig o ddeg diwrnod. Yn 6 (15%) o'r achosion, ni ddarparwyr sicrwydd gan y Darparwr bod un neu fwy o gamau unioni wedi cael eu cymryd ac felly cyflwynwyd 'Cynllun Gwella Perfformiad' yn arwain at addasu Sgôr Sicrwydd Ansawdd '3Q' y darparwyr i adlewyrchu difrifoldeb y diffyg. Yn ystod 2021-2022, collodd 1 darparwr 1Q collodd 2 o ddarparwyr 2Q, gwaharddwyd 1 darparwr ac mae'r cynllun gwella dal yn weithredol i 2 o ddarparwyr.



**Ffaith GGSA**

**Unionwyd 76% o ddiffygion darparwyr o fewn deg diwrnod gwaith i Adolygiad Sicrhau Ansawdd yr Ysbyty**

**TWYLLO FFAITH**

# Sgôr Sicrwydd Ansawdd

TMae'r GGSA wedi datblygu System Sgoriau Sicrwydd Ansawdd wedi'i theilwra. Mae'r system yn sicrhau bod darparwyr yn gwneud pob ymdrech i gynnal sgôr o dri nod ansawdd ('Q'), sydd wedyn yn caniatáu sefydliadau i weld sgôr ansawdd cyffredinol unrhyw ddarpar ddarparwr wrth gomisiynu lleoliad.

Mae Ffigur 21 yn dangos y Sgôr Sicrwydd Ansawdd ar gyfer uned ar adeg lleoli pob un o'r 218 o gleifion a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 gan Fwrdd Iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Er mwyn sicrhau bod darparwyr yn cael eu cymell i gynnal ansawdd a chynnig y gwerth gorau am arian, mae proses y Fframwaith Ysbytai Oedolion yn annog comisiynwyr, pan fo'n glinigol briodol gwneud hynny, i leoli cleifion gyda'r darparwr â'r sgôr uchaf.

- Lleolwyd 100% (218) o gleifion yn 2021-2022 gyda darparwr a gynhaliodd 3Q. Mae hyn yr un fath ag yn 2020- 2021.
- Ni leolwyd unrhyw gleifion yn 2021-2022gyda darparwr a gynhaliodd 2Q. Mae hyn yr un fath ag yn 2020-2021.
- Ni leolwyd unrhyw gleifion yn 2021-2022 gyda darparwr a gynhaliodd 1Q. Mae hyn yr un fath ag yn 2020/2021.

Mae Ffigur 21 yn dangos y lleoliadau gyda'r darparwyr sy'n cynnal eu 3Q, 2Q neu 1Q ers sefydlu'r system Sgoriau Sicrwydd Ansawdd yn 2015.

O ran lleoliadau gyda darparwyr nad oes ganddynt 3Q, mae'r Fframwaith Ysbytai Oedolion yn annog lleoliadau gyda'r darparwr o'r ansawdd uchaf sydd ar gael ar yr adeg honno, er efallai na fydd hyn yn digwydd bob amser oherwydd arferion comisiynwyr, y gwelyau sydd ar gael, pellter o'r cartref neu angen penodol claf (e.e. Wedi Cael Niwed i'r Ymennydd).

Mae proses leoli'r Fframwaith Ysbytai Oedolion yn sicrhau bod rhesymau am beidio â lleoli claf mewn ysbyty 3Q yn cael eu cofnodi.

Ni leolwyd unrhyw gleifion gyda darparwyr â sgôr 2Q neu 1Q.




*Fifgur 21: Lleoliadau fesul Sgôr Sicrwydd Ansawdd dros Wyth Mlynedd*

# Lleoliad gyda Darparwyr yn y Pump Uchaf

Mae'r Fframwaith Ysbytai Oedolion yn defnyddio model ansawdd yn gyntaf wedi'u trefnu ar sail pellter a gwerth am arian. Caiff yr unedau darparwyr â gwelyau gwag eu trefnu yn ôl eu sgôr sicrwydd ansawdd presennol (3Q yn uwch na 2Q ac ati). Caiff y darparwyr sydd i gyd â'r un Sgôr Sicrwydd Ansawdd eu trefnu ar sail gwerth am arian a phellter i bob uned o 'god post arwyddocaol i'r claf' (wedi'i gofnodi gan y comisiynydd) a ddangosir.

Mae Ffigur 22 yn dangos derbyniadau i'r 5 darparwr uchaf rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 fesul sefydliad comisiynu.




*Ffigur 22: Derbyniadau i Ddarparwyr sydd yn y Pump Uchaf 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 fesul Comisiynydd*

Lleolwyd 72% (41 o 57) o gleifion gyda darparwr yn y 5 uchaf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Lleolwyd 70% (21 o 30) o gleifion gyda darparwr yn y 5 uchaf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Lleolwyd 71% (15 o 21) o gleifion gyda darparwr yn y 5 uchaf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Lleolwyd 61%(14 o 23) o gleifion gyda darparwr yn y 5 uchaf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Lleolwyd 30% (3 o 10) o gleifion gyda darparwr yn y 5 uchaf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Lleolwyd 89% (17 o 19) o gleifion gyda darparwr yn y 5 uchaf gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

Lleolwyd 59% (13 o 22) o gleifion gyda darparwr yn y 5 uchaf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Lleolwyd 81% (29 o 36) o gleifion gyda darparwr yn y 5 uchaf gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru



# Parchu Preifatrwydd, Urddas, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Un o ofynion sylfaenol gofal cleifion da yw parchu preifatrwydd, urddas, cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol pob unigolyn. Mae'r Fframwaith Ysbytai Oedolion yn nodi gofynion penodol ar gyfer y maes hwn, y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni ac maent yn cael eu harchwilio yn ystod pob adolygiad ysbyty.

Mae Ffigur 22 dros y dudalen yn dangos y cyflawniad cyfartalog ar gyfer y safonau penodol rhwng 2015 a 2022. Mae'r ddau faes sydd wedi'u lliwio'n wyrdd wedi gwella, mae'r tri mewn coch wedi gwaethygu ac nid yw'r pedwar mewn llwyd wedi newid ers y flwyddyn cynt.

Roedd y gostyngiad mwyaf ym maes: Mae'r claf yn cael ei hysbysu am ei hawliau (i) wrth gael ei dderbyn neu cyn gynted â phosibl yn fuan wedi hynny a (ii) ar ôl cyfnod hwyaf o ddau (2) fis calendr a (iii) ar gais. Lle bu gostyngiad o 7%.
Bydd unrhyw achosion o waethygiad yn cael sylw yn ystod archwiliadau'r flwyddyn nesaf.

Mae Ffigur 23 isod yn dangos y naw safon benodol yn ymwneud â Pharchu Preifatrwydd, Urddas, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol â chanran y darparwyr a fodlonodd y safon dros y chwe blynedd diwethaf.

| Safon<br>Naw safon benodol yn ymwneud â Pharchu Preifatrwydd, Urddas, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | % y Darparwyr a Fodlonodd y Safon | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
| Mae ardal cynnwrf isel / dawel ddynodedig, a gynlluniwyd yn benodol, wedi'i Haddurno a'i pharatoi ar gael, heb deledu na ffôn, ac ymhell o fannau cymunedol. | 97% | 93% | 82% | 97% | 99% | 90% | 100% |
| Ceir cyfleuster ar gyfer storio eiddo Cleifion yn ddiogel a gall y Claf gael mynediad â goruchwyliaeth at y cyfleuster hwn. | 74% | 77% | 65% | 92% | 99% | 90% | 96% |
| Gall y claf gael sgwrs breifat gyda gweithiwr gofal proffesiynol ar gais gan roi sylw dyledus i risg, diogelwch, lles pennaf a chyfrinachedd. | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 96% |
| Mae anghenion cleifion o ran Deddf Cydraddoldeb 2010 (h.y. anghenion o ran hil, anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, perthnasoedd a bywyd teuluol, crefydd neu gred, hunaniaeth rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth) yn cael eu nodi a rhoddir sylw iddynt. | 88% | 96% | 83% | 98% | 96% | 100% | 100% |
| Mae'r claf yn cael ei hysbysu am ei hawliau (i) i) wrth gael ei dderbyn neu cyn gynted â phosibl yn fuan wedi hynny a (ii) ar ôl cyfnod hwyaf o ddau (2) fis calendr a (iii) ar gais. | 100% | 100% | 97% | 97% | 97% | 100% | 93% |
| Mae cleifion yn cael eu galluogi a'u hannog i gael gafael, pan fo'n briodol, ar (i) Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (ii) Eiriolaeth Galluedd Meddyliodd Annibynnol (iii) Eiriolaeth. | 97% | 96% | 100% | 100% | 99% | 100% | 100% |
| Mae'r amgylchedd gofal yn diogelu preifatrwydd y Claf. | 85% | 93% | 86% | 100% | 96% | 100% | 98% |
| Pryd bynnag y bo'n bosibl ac yn dilyn asesiad risg priodol, mae ystafell wely'r Claf yn hwyluso anghenion a dymuniadau unigol. | 93% | 100% | 100% | 98% | 99% | 100% | 100% |
| Mae gan y Claf fynediad at (i) cyfleusterau (ii) gofal bugeiliol myfyriol, ffydd neu aml-ffydd. | 97% | 93% | 82% | 100% | 99% | 100% | 100% |

*Ffigur 23: Darparu Sicrwydd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth*

# Cydgysylltu Gofal

Mae'n hanfodol bod cydgysylltwyr gofal yn derbyn hysbysiadau electronig am ddigwyddiadau a bod y GGSA yn gallu cysylltu â nhw i drafod materion unigol. Er mwyn hwyluso hyn, mae'n ofyniad i gofnodi enwau cydgysylltydd/wyr gofal y claf wrth drefnu lleoliad. Yn 2021-22, roedd manylion cydgysylltydd gofal wedi'u cofnodi ar gyfer 100% o gleifion.

Mae GGSA GIG Cymru yn monitro presenoldeb mewn adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth i roi sicrwydd i sefydliadau comisiynu eu bod yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Dilyswyd y rhifau sydd wedi'u cynnwys yn y ffigur gan gomisiynwyr a darparwyr.

Yn dilyn adolygiad Cynllun Gofal a Thriniaeth, mae'n ofynnol i'r darparwr gofnodi a oedd y cydgysylltydd gofal a / neu gynrychiolydd arall o'r Bwrdd Iechyd yn bresennol ynddo. Rydym yn cydnabod y byddai rhai ymweliadau gan gydgysylltwyr gofal wedi bod yn destun y cyfyngiadau a oedd ar waith yn ystod y pandemig.

Mae Ffigur 24 dros y dudalen yn dangos presenoldeb neu ddiffyg presenoldeb* naill ai cydgysylltydd gofal a/neu gynrychiolydd arall o Gymru yn yr adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth a gynhaliwyd ar gyfer y 293 o gleifion a oedd yn derbyn sicrwydd (ac yn gymwys ar gyfer adolygiad) rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.



Sylwer nad yw diffyg presenoldeb mewn adolygiadau yn dynodi diffyg cyswllt llwyr â'r claf, gan ei bod yn bosibl bod gweithwyr proffesiynol wedi ymweld â'r claf ar adegau eraill.

# Presenoldeb mewn Adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth




*Ffigur 24: Presenoldeb mewn Adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth 2020-2021 a 2021-2022*

# SICRHAU GOFAL DIOGEL AC EFFEITHOL



## Gofynion Gwybodaeth

I sicrhau bod y GIG yn gwneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg, bydd yn dod yn gynyddol bwysig bod dull 'Unwaith i Gymru' yn cael ei fabwysiadu. Bydd sefydliadau sy'n gallu rhannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon yn gallu mabwysiadu modelau gofal arloesol newydd, a darparu gwasanaethau ansawdd uchel, cynaliadwy ac yn seiliedig ar ganlyniadau i bobl Cymru.*

## System Sicrwydd a Pherfformiad Comisiynu Gofal

Y dechnoleg a ddefnyddir gan y GGSA yw'r System Sicrwydd a Pherfformiad Comisiynu Gofal (CCAPS). Mae CCAPS yn darparu porth gwybodaeth 'un stop', yn tynnu sylw comisiynwyr at broblemau yn rhagweithiol, yn cynorthwyo'r broses o reoli perfformiad darparwyr ac yn alluogydd ar gyfer sicrwydd.

Mae CCAPS yn system a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn 2015. Mae'n alluogydd i'r Fframweithiau Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol, sy'n darparu gwybodaeth safonol â'r gallu i gysylltu'r holl ddefnyddwyr o wahanol sefydliadau i gynorthwyo GIG Cymru i reoli perfformiad darparwyr yn rhagweithiol.

* Fframwaith Cynllun GIG Cymru 2019/22 WG25726 ISBN Digidol 978-1-78964-115-8.

# System Sicrwydd a Pherfformiad Comisiynu Gofal (CCAPS)




## Mae CCAPS yn cynorthwyo unigolion trwy:

- Roi dewis o leoliad gofal.
- Darparu sicrwydd ynghylch yr ansawdd gofal disgwyliedig.
- Monitro gwelliant iechyd a llesiant.
- Sicrhau ymateb prydlon i unrhyw gŵynion, digwyddiadau / pryderon diogelu.

## Mae CCAPS yn cynorthwyo darparwyr trwy:

- Broses gomisiynu safonol
- Dangos a'r gallu i ddiweddaru nifer y gwelyau sydd ar gael"
- Hwyluso'r broses o hysbysu comisiynwyr a chydgysylltwyr gofal am bryderon

## Mae CCAPS yn cynorthwyo comisiynwyr trwy:

- Rannu gwybodaeth am ddarparwyr gofal.
- Cyfateb lleoliad gofal i anghenion claf.
- Gwybodaeth am ansawdd lleoliad gofal.
- Dangos tystiolaeth o'r gofal a dderbyniwyd am y gost a ysgwyddwyd.
- Grymuso penderfyniad comisiynydd.*

* Kones, L ac Anderson,P.(2016), Evaluation of the Commissioning Care Assurance & Performance System, Canolfan Economeg Iechyd Prifysgol Abertawe.

## Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru gynt) wedi'i gontractio i ddatblygu a chefnogi'r gwaith o redeg CCAPS o ddydd i ddydd. Yn 2022, mae nifer y defnyddwyr o'r GIG wedi cynyddu 171 i 197, y Darparwyr 485 i 580, ac mae Awdurdodau Lleol wedi cynyddu o 46 i 52 ac mae'r Rheoleiddiwr (AGIC) wedi cynyddu o 4 i 5 fel y dangosir yn Ffigur 25 isod.




*Ffigur 25: Nifer defnyddwyr CCAPS fesul Sefydliad ar 31 Mawrth 2022*

## Desg Gymorth GGSA

Rydym yn rhedeg Desg Gymorth CCAPS ac yn cynnig cymorth i ddefnyddwyr CCAPS; cofnododd y Ddesg Gymorth 1,253 o geisiadau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth2022'.



# Porth Rhannu Ffeiliau Diogel

System genedlaethol yw Porth Rhannu Ffeiliau Diogel GIG Cymru sy’n galluogi gwybodaeth y gellir adnabod cleifion ohoni i gael ei throsglwyddo yn ddiogel, yn sicr ac yn gyflym rhwng sefydliadau dros y rhyngrwyd. Fe’i cynhelir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac fe’i gweinyddir gan y GGSA.

Nod y GGSA yw cefnogi ‘GIG di-bapur’ drwy fanteisio i’r eithaf ar y dechnoleg sydd ar gael i drosglwyddo a derbyn gwybodaeth y gellir adnabod cleifion ohoni yn ddiogel rhwng comisiynwyr Cymru a darparwyr Fframwaith Cydweithredol.

Cenedlaethol. Y prif amcanion yw:

- Sicrhau na all data sensitif gael eu rhyng-gipio, eu llygru neu eu camleoli.
- Caniatáu i wybodaeth sensitif a gwybodaeth sy’n fasnachol sensitif gael ei rhannu.
- Rhannu gwybodaeth cyfradd fawr.
- Yn galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu ar unwaith.
- Yn galluogi cyfathrebiad rhwng y GGSA, Darparwyr, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol a sefydliadau 3ydd parti y tu mewn a’r tu allan i GIG Cymru.
- Cael gwared ar gostau postio.

Mae nifer y defnyddwyr sy’n defnyddio’r system yn parhau i dyfu,
ac ar 31 Mawrth 2022, roedd 430 o ddefnyddwyr unigryw o faes iechyd, awdurdodau lleol a darparwyr gofal, o 336 yn y flwyddyn cynt, sy’n gynnydd o 28%. Yn ystod y flwyddyn adrodd, trosglwyddwyd 7,498 o becynnau / e-byst rhwng sefydliadau ar draws bob categori ac mae hyn yn ostyngiad o 8,317 yn 2020-21.

Mae Ffigur 26 isod yn dangos nifer y defnyddwyr cofrestredig fesul categori ar 31 Mawrth 2022.




**Ffaith GGSA**

**Anfonwyd 7,498 o becynnau yn ystod 2021-2022**

**TWYLLO FFAITH**

*Mae’r gostyngiad i nifer y defnyddwyr o ymarfer cymhennu blynyddol sy’n dangos gwerth gwirioneddol defnyddwyr gweithredol.*

*Ffigur 26: Nifer y Defnyddwyr Cofrestredig fesul Categori ar 31 Mawrth 2022*

# Digwyddiadau

Mae'r holl ddigwyddiadau yr hysbysir amdanynt sy'n ymwneud â chleifion sy'n derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion yn cael eu monitro gan y GGSA i dynnu sylw at feysydd sydd angen ymyrraeth, camau unioni neu welliant. Caiff digwyddiadau eu monitro yn erbyn matrics 71 pwynt wedi'i deilwra o 15 o feysydd gofal.

Ym mhob un o'r 15 maes gofal hyn, dosberthir digwyddiadau fel un o bum lefel o ddifrifoldeb o ddibwys i gritigol fel y dangosir isod.

| Math o Ddigwyddiad | Cyfarwyddyd | Difrifoldeb | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dibwys | Mân | Cymedrol | Difrifol | Critigol |
| Gwall yn rhagnodi, gweinyddu neu roi meddyginiaeth i glaf o Gymru, sy'n arwain at niwed gwirioneddol neu a allai fygwth bywyd neu farwolaeth. | Gwall yn rhagnodi, gweinyddu neu roi meddyginiaeth i glaf o Gymru, sy'n arwain at niwed gwirioneddol neu a allai fygwth bywyd neu farwolaeth. | Gwall yn rhagnodi, gweinyddu neu roi meddyginiaeth i glaf o Gymru, sy'n arwain at niwed gwirioneddol neu a allai fygwth bywyd neu farwolaeth | Gwall yn rhagnodi, gweinyddu neu roi meddyginiaeth i glaf o Gymru, sy'n arwain at niwed gwirioneddol neu a allai fygwth bywyd neu farwolaeth | Gwall yn rhagnodi, gweinyddu neu roi meddyginiaeth i glaf o Gymru, sy'n arwain at niwed gwirioneddol neu a allai fygwth bywyd neu farwolaeth | Gwall yn rhagnodi, gweinyddu neu roi meddyginiaeth i glaf o Gymru, sy'n arwain at niwed gwirioneddol neu a allai fygwth bywyd neu farwolaeth | Gwall yn rhagnodi, gweinyddu neu roi meddyginiaeth i glaf o Gymru, sy'n arwain at niwed gwironeddol neu a allai fygwth bywyd neu farwolaeth |

Er mwyn gallu cymharu niferoedd yn fwy cywir (gan y gallai fod gan fathau penodol o wasanaethau neu ddarparwyr fwy o gleifion) rydym yn cyfrifo'r enwadur yn ôl 'sawl diwrnod yr oedd gwely mewn uned wedi'i feddiannu gan glaf o Gymru', 'diwrnodau gwely wedi'i feddiannu' yw'r enw ar hyn. Caiff y niferoedd eu lluosi gyda 1000 wedi i lunio meincnod cyffredin

Mae Ffigur 27 yn dangos yr 11,475 o ddigwyddiadau a adroddwyd yn ôl difrifoldeb yn ymwneud â chleifion a oedd yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth2022.

| Math o Ddigwyddiad | Dibwys | Mân | Cymedrol | Difrifol | Critigol | Cyfanswm y Digwyddiadau | Fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawnwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 1,456 | 1,379 | 370 | 20 | 5 | 3,230 | 26.4 |
| Ymddygiad hunan-niweidiol / Hunanladdiad | 1,356 | 1,381 | 218 | 10 | 0 | 2,965 | 24.3 |
| Cyflawner cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 1,166 | 825 | 453 | 51 | 0 | 2,495 | 20.4 |
| Tanseilio diogelwch / eitemau gwaharddedig | 245 | 205 | 10 | 2 | 0 | 462 | 3.8 |
| Anaf i glaf yn deillio o ddamwain neu ddigwyddiad neu sydd heb ei esbonio. h.y. ANGHLINIGOL | 287 | 133 | 32 | 1 | 2 | 455 | 3.7 |
| Victim of Disruptive, physically aggressive behaviour, Violence | 286 | 101 | 19 | 3 | 0 | 409 | 3.3 |
| Dioddefwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 244 | 98 | 25 | 4 | 0 | 371 | 3.0 |
| Dioddefwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 153 | 136 | 24 | 0 | 0 | 313 | 2.6 |
| Cyflawnwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol Mynediad, derbyn, trosglwyddo, rhyddhau (gan gynnwys claf coll) – absennol heb ganiatâd | 88 | 30 | 24 | 42 | 0 | 184 | 1.5 |
| Anaf neu niwed i glaf yn deillio o unrhyw weithred neu hepgoriad yn ymwneud â Gofal a Thriniaeth, Triniaeth neu ymyrraeth glinigol. h.y. CLINIGOL | 128 | 7 | 5 | 0 | 0 | 140 | 1.1 |

*Ffigur 27: Digwyddiadau a Hysbyswyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 (Parhau Drosodd)*

| Math o Ddigwyddiad | Dibwys | Mân | Cymedrol | Difrifol | Critigol | Cyfanswm y Digwyddiadau | Fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meddyginiaeth | 90 | 42 | 6 | 0 | 1 | 139 | 1.1 |
| Dogfennau, cadw cofnodion, data a cyfreithiol, ac eiddo. | 69 | 19 | 3 | 2 | 0 | 93 | 0.8 |
| Defnydd neu feddiant o sylwedd anghyfreithlon / Alcohol | 22 | 58 | 5 | 0 | 0 | 85 | 0.7 |
| Dioddefwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 40 | 25 | 11 | 0 | 0 | 76 | 0.6 |
| Salwch claf | 0 | 0 | 38 | 15 | 5 | 58 | 0.5 |
| Cyfanswm | 5,630 | 4,439 | 1,243 | 150 | 13 | 11,475 | 93.9 |

*Ffigur 27: Digwyddiadau a Hysbyswyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022*

Mae'r 11,475 o ddigwyddiadau a hysbyswyd eleni yn ostyngiad o 24% (14,627) o ddigwyddiadau a adroddwyd yn 2020-2021 (Sylwer: roedd gostyngiad o 2% i nifer y cleifion a dderbyniodd sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion eleni).

Dosberthir y digwyddiadau yn ôl y 5 lefel o ddifrifoldeb. Dyma lefelau difrifoldeb pob un o'r 11,475 a hysbyswyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022:

- Dosbarthwyd 49% yn ddibwys yn 2021-22 o'i gymharu â 50% yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 39% yn fân yn 2021-22 yr un fath ag yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 11% yn gymedrol yn 2021-22 o'i gymharu â 10% yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 1% yn ddifrifol yn 2021-22 yr un fath ag yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 0% yn gritigol yn 2021-22 yr un fath ag yn 2020-21.

Mae Ffigur 28 isod yn dangos nifer y digwyddiadau fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu yn ôl math o ddigwyddiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf

| | 2020-2021 | 2021-2022 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y digwyddiadau** | 14,627 | 11,475 | -3,152 |
| | Nifer y digwyddiadau fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu | | |
| **Math o Ddigwyddiad** | 2020-2021 | 2021-2022 | Gwahaniaeth |
| Anaf i glaf yn deillio o ddamwain neu ddigwyddiad neu sydd heb ei esbonio. h.y. ANGHLINIGOL | 2.7 | 3.7 | +1.0 |
| Tanseilio diogelwch / eitemau gwaharddedig | 3.2 | 3.8 | +0.6 |
| Anaf neu niwed i glaf yn deillio o unrhyw weithred neu hepgoriad yn ymwneud â Gofal a Thriniaeth, Triniaeth neu ymyrraeth glinigol. h.y. CLINIGOL | 0.6 | 1.1 | +0.5 |
| Dogfennau, cadw cofnodion, data a cyfreithiol, ac eiddo. | 0.4 | 0.8 | +0.3 |
| Mynediad, derbyn, trosglwyddo, rhyddhau (gan gynnwys claf coll) – absennol heb ganiatâd | 1.2 | 1.5 | +0.3 |
| Dioddefwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 0.4 | 0.6 | +0.2 |
| Defnydd neu feddiant o sylwedd anghyfreithlon / Alcohol | 0.6 | 0.7 | +0.1 |
| Meddyginiaeth | 1.3 | 1.1 | -0.2 |
| Salwch claf | 0.7 | 0.5 | -0.3 |
| Dioddefwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 3.3 | 3.0 | -0.3 |
| Cyflawnwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 3.4 | 2.6 | -0.9 |
| Dioddefwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 5.0 | 3.3 | -1.7 |
| Cyflawnwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 25.8 | 20.4 | -5.4 |
| Cyflawnwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 32.8 | 26.4 | -6.3 |
| Ymddygiad hunan-niweidiol / Hunan-laddiad | 36.4 | 24.3 | -12.1 |

*Ffigur 28: Nifer y digwyddiadau fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu yn ôl cymhariaeth o fath o ddigwyddiad*

# Digwyddiadau fesul Math o Wasanaeth

Mae Ffigur 29 isod yn dangos nifer y digwyddiadau a hysbyswyd fesul math o wasanaeth yn ymwneud â chleifion a oedd yn derbyn sicrwydd ar y Fframwaith Ysbytai Oedolion a hefyd yn dangos digwyddiadau fesul math o wasanaeth fesul pob 100 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu - Iechyd Meddwl yw IM ac Anabledd Dysgu yw AD

| Math o Wasanaeth | Dibwys | Mân | Cymedrol | Difrifol | Critigol | Cyfanswm y Digwyddiadau | Fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelwch Isel - IM Benywaidd | 1,465 | 1,289 | 314 | 49 | 1 | 3,118 | 25.5 |
| Ffordd Allan wedi'i Rheoli - IM Benywaidd | 841 | 904 | 236 | 26 | 3 | 2,010 | 16.5 |
| Diogelwch Isel - IM Gwrywaidd | 613 | 585 | 166 | 36 | 3 | 1,403 | 11.5 |
| Ffordd Allan wedi'i Rheoli - IM Gwrywaidd | 690 | 434 | 128 | 17 | 1 | 1,270 | 10.4 |
| Ffordd Allan wedi'i Rheoli - AD Benywaidd | 411 | 397 | 131 | 4 | 1 | 944 | 7.7 |
| Diogelwch Canolig – IM Gwrywaidd | 345 | 177 | 74 | 9 | 1 | 606 | 5.0 |
| Diogelwch Isel - AD Gwrywaidd | 241 | 171 | 56 | 2 | 1 | 471 | 3.9 |
| Ffordd Allan wedi'i Rheoli - AD Gwrywaidd | 326 | 196 | 13 | 0 | 0 | 458 | 3.7 |
| Diogelwch Canolig - IM Benywaidd | 314 | 111 | 31 | 1 | 0 | 457 | 3.7 |
| Diogelwch Isel - AD Benywaidd | 123 | 88 | 24 | 2 | 0 | 237 | 1.9 |
| Ffordd Allan Heb ei Rheoli - AD Gwrywaidd | 42 | 87 | 54 | 1 | 0 | 184 | 1.5 |
| Ffordd Allan Heb ei Rheoli - IM Benywaidd | 98 | 34 | 2 | 0 | 0 | 134 | 1.1 |
| Ffordd Allan Heb ei Rheoli - IM Gwrywaidd | 80 | 18 | 13 | 3 | 2 | 116 | 0.9 |
| Diogelwch Canolig - AD Gwrywaidd | 40 | 24 | 1 | 0 | 0 | 65 | 0.5 |
| Diogelwch Canolig - AD Benywaidd | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0.0 |
| Cyfanswm | 5,630 | 4,439 | 1,243 | 150 | 13 | 11,475 | 93.9 |

*Mae Ffigur 29 yn dangos nifer y digwyddiadau fesul Math o Wasanaeth*

Mae Ffigur 30 isod yn dangos y gymhariaeth/gwahaniaeth rhwng 2020/2021 a 2021/2022 yn ôl digwyddiadau fesul 1000 o Ddiwrnodau Gwely wedi'i Feddiannu yn ôl Math o Wasanaeth – Iechyd Meddwl yw IM ac Anabledd Dysgu yw AD

| | 2020-2021 | 2021-2022 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Digwyddiadau** | **14,627** | **11,475** | **-3,152** |
| | **Nifer y digwyddiadau fesul pob 1000 gwely wedi'i feddiannu** | | |
| **Math o Wasanaeth** | **2020-2021** | **2021-2022** | **Gwahaniaeth** |
| Ffordd Allan wedi'i Rheoli - AD Benywaidd | 4.8 | 7.7 | +2.9 |
| Diogelwch Canolig AD Gwrywaidd | 1.8 | 3.7 | +2.0 |
| Diogelwch Isel - IM Gwrywaidd | 10.4 | 11.5 | +1.1 |
| Ffordd Allan wedi'i Rheoli - IM Gwrywaidd | 9.9 | 10.4 | +0.5 |
| Ffordd Allan Heb ei Rheoli - IM Benywaidd | 0.9 | 0.9 | 0.0 |
| Diogelwch Canolig AD Benywaidd | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Ffordd Allan Heb ei Rheoli - IM Gwrywaidd | 1.1 | 0.5 | -0.6 |
| Diogelwch Isel - AD Gwrywaidd | 4.7 | 3.7 | -1.0 |
| Ffordd Allan Heb ei Rheoli - AD Gwrywaidd | 2.5 | 1.5 | -1.0 |
| Diogelwch Canolig IM Benywaidd | 6.0 | 5.0 | -1.1 |
| Diogelwch Canolig IM Gwrywaidd | 3.3 | 1.9 | -1.4 |
| Ffordd Allan wedi'i Rheoli - AD Gwrywaidd | 6.2 | 3.9 | -2.4 |
| Diogelwch Isel - AD Benywaidd | 3.6 | 1.1 | -2.5 |
| Diogelwch Isel - IM Benywaidd | 34.0 | 25.5 | -8.5 |
| Ffordd Allan wedi'i Rheoli - IM Benywaidd | 28.9 | 16.5 | -12.5 |

*Mae Ffigur 30 yn dangos y gymhariaeth rhwng mathau o wasanaeth a'r gwahaniaeth rhyngddynt*

# Cwynion

Caiff yr holl gŵynion a hysbysir eu monitro gan y GGSA i dynnu sylw at feysydd i'w hymchwilio neu eu gwella. Caiff cwynion a hysbysir gan gleifion sy'n derbyn sicrwydd y Fframwaith Ysbytai Oedolion eu categoreiddio yn erbyn matrics 53 pwynt o naw maes cwynion ag is-gategorïau ym mhob un. Caiff cwynion eu monitro ar lefel claf, uned, ysbyty a darparwr.Yn 2021-22, cafwyd cyfanswm o 256 o gŵynion, mae hyn wedi cynyddu 92 o'r flwyddyn adrodd flaenorol (164).
Bu cynnydd i nifer y cwynion (agwedd staff, ymddygiad claf arall, cyfathrebu, eiddo cleifion, cyfreithiol a chydraddoldeb ac amrywiaeth) fel y dangosir yn ffigur 31 isod.

- Dosbarthwyd 7% (19) fel Gwasanaethau Gwesty yn 2021-22 o'i gymharu â 7% yn 2020/21.
- Dosbarthwyd 40% (102) fel Agwedd / Ymddygiad Staff yn 2021-22 o'i gymharu â 33% yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 4% (10) fel Ymddygiad Claf Arall yn 2021-22 o'i gymharu â 13% yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 9% (22) fel Cyfathrebu yn 2021-22 o'i gymharu â 6% yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 10% (26) fel Eiddo Cleifion yn 2021-22 o'i gymharu â 14% yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 21% (53) fel Triniaeth Glinigol yn 2021-22 o'i gymharu â 10% yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 4% (10) fel Cyfreithiol yn 2021-22 o'i gymharu â 6% yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 5% (14) fel Protocolau Ysbyty yn 2021-22 o'i gymharu ag 11 yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 0% (0) fel Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn 2021-22 o'i gymharu ag 1% yn 2020-21.




*Ffigur 31: cwynion fesul categori ar gyfer 2015-2022*

Cafwyd cynnydd o 89% o'r flwyddyn flaenorol yn y categori Agwedd ac Ymddygiad Staff er mai Agwedd / Ymddygiad Staff oedd y categori mwyaf o hyd, â 102 o gŵynion. Mae Ffigur 32 yn dadansoddi'r categori hwn i'w is-gategorïau.




*Ffigur 32: Categori cwynion Agwedd/Ymddygiad Staff yn ôl yr is-gategori*

# Diogelu

Mae'r GGSA yn monitro'r holl bryderon diogelu posibl yn ymwneud â chleifion sy'n derbyn gofal o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion. Caiff y pryderon diogelu hyn eu dilysu wedyn gan dimau diogelu lleol, fel rhai sy'n bodloni eu trothwy diogelu lleol ('wedi'u cadarnhau'), neu beidio ('heb eu cadarnhau'). Yn 2021-22, dilyswyd 15% (100) o'r 675 o bryderon diogelu a hysbyswyd fel rhai wedi'u cadarnhau ac 85% (575) fel rhai heb eu cadarnhau.

Mae'r 675 o bryderon diogelu posibl yn cyfateb i gynnydd o 23% o'r 459 a adroddwyd yn 2020-21. Mae Ffigur 33 yn dadansoddi'r hysbysiadau diogelu fesul haen gofal.




*Ffigur 33: yn dangos y 675 o bryderon diogelu posibl yr hysbyswyd amdanynt ar CCAPS rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022*



## Diogelu

Gall pryderon diogelu fod yn gam-drin rhywiol, yn gam-drin corfforol, yn esgeuluso, yn gam-drin ariannol ac yn gam-drin emosiynol / seicolegol.

- Cofnodwyd a chadarnhawyd 14% (14) fel cam-drin rhywiol.
- Cofnodwyd a chadarnhawyd 37% (37) fel cam-drin corfforol.
- Cofnodwyd a chadarnhawyd 36% (36) fel esgeulustod.
- Cofnodwyd a chadarnhawyd 2% (2) fel cam-drin ariannol.
- Cofnodwyd a chadarnhawyd 11% (11) fel cam-drin emosiynol / seicolegol.

**Pan fydd yn cael ei hysbysu am bryder diogelu, mae'r GGSA yn cysylltu â'r darparwr i sicrhau bod camau ar unwaith a phriodol wedi cael eu cymryd.**

# Gwariant

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gwariant GIG Cymru drwy'r Fframwaith Ysbytai Oedolion yn gost sail flynyddol o £58,741,331. Mae Ffigur 34 isod yn dangos y gwariant fesul sefydliad comisiynu* dros y saith mlynedd flaenorol.




*Ffigur 34: Gwariant Sail Flynyddol fesul Sefydliad ar 31 Mawrth 2022*

*Sylwer bod costau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar gyfer gofal diogelwch canolig a bod costau Byrddau Iechyd ar gyfer amgylcheddau diogelwch isel, a ffordd allan wedi'i rheoli a heb ei rheoli.

# DULLIAU ARIANNOL

Mae Ffigur 35 yn dangos y gwariant gan sefydliadau comisiynu yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf mewn £miliynau. Mae'n dangos cynnydd o £4.9 miliwn (8%) o'r flwyddyn gynt a chynnydd o £6.2 miliwn ers 2014-15 (11%)

| 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £52.2M | £54.1M | £55.9M | £51.7M | £50.9M | £50.5M | £53.8M | £58.7M |

*Ffigur 35: Gwariant ar y Fframwaith Ysbytai Oedolion*

Mae'r Fframwaith Ysbytai Oedolion yn darparu 'dull pris pedwar trywydd' i roi pwysau parhaus ar ddarparwyr i ddarparu, i GIG Cymru, gofal o ansawdd am y gwerth gorau trwy ddull sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac a reolir. Y pedwar dull hyn yw costau sydd wedi'u cynnwys yn y pris, trefnu prisiau cystadleuol, diweddariadau pris rheolaidd a phrisio cyson.

## Costau sydd Wedi'u Cynnwys yn y Pris

Mae'r Fframwaith Ysbytai Oedolion yn cynnwys manyleb wedi'i theilwra i GIG Cymru yn nodi'r gwasanaethau i'w darparu am bris diwrnod sefydlog. Ar hyn o bryd, mae hwn yn cynnwys holl gostau staffio 1:1 ychwanegol sydd eu hangen ar gleifion weithiau yn yr amgylcheddau hyn i liniaru hunan-niwed neu drais.
Roedd y costau staffio ychwanegol hyn yn filiynau lawer cyn sefydlu'r Fframwaith Ysbytai Oedolion ac maent bellach wedi'u cynnwys yn y pris diwrnod.

## Trefnu Prisiau Cystadleuol

Mae'r Fframwaith Ysbytai Oedolion yn defnyddio dull 'ansawdd ac yna chost' o ddarparu dull cystadleuol rhwng darparwyr gofal sy'n bodloni'r safon ansawdd. Yna, caiff darparwyr sydd i gyd â'r un sgôr sicrwydd ansawdd eu trefnu yn ôl pris, a rhoddir i ddarparwr â'r pris isaf uwchben y rhai sy'n costio mwy. Mae hyn yn galluogi amgylchedd hynod gystadleuol.

## Diweddariadau Pris Rheolaidd

Mae gan y Fframwaith Ysbytai Oedolion bwyntiau ‘diweddaru prisiau’ cyfnodol wedi’u hymgorffori, lle gall darparwyr ostwng prisiau bob 6 mis a lle gall darparwyr godi neu ostwng eu prisiau bob 18 mis (gyda chafeatau). Mae’r pwyntiau hyn yn galluogi ceisiadau rheolaidd i gynyddu prisiau, sy’n arferol i wasanaethau a gomisiynir, gael eu disodli gyda deialog parhaus lle mae’r Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol a Chydwasanaethau Caffael yn gweithio gyda darparwyr, ar ran GIG Cymru, i ddeall pwysau’r farchnad, gofynion cost cenedlaethol a lleol a dylanwadau cost eraill i sicrhau bod darparwyr yn deall yr angen i ddarparu gofal am y gwerth gorau ac i sicrhau bod gwasanaethau a gaffaelwyd yn cael eu darparu.



## Prisio Cyson

Mae’r holl daliadau pris (gweler y dudalen flaenorol) yn berthnasol i leoliadau presennol yn ogystal â rhai yn y dyfodol. Mae hyn yn galluogi arbedion rhyddhau arian parod gwirioneddol i gael eu darparu ac i atal prisio ‘abwyd’. Mae’r dull hwn wedi sicrhau arbedion rhyddhau arian parod i’r GIG. Mae’r dull hefyd yn amddiffyn rhag yr anhrefn a welir mewn marchnadoedd comisiynu eraill lle defnyddir prisiau niferus ar gyfer lleoliadau, hyd yn oed ar yr un ward, gan fod y gymysgedd o brisiau hanesyddol a phresennol yn gwneud cymhariaeth prisiau gwirioneddol yn amhosibl.

# ADRAN 3

## Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Diogelwch Isel a Gwasanaethau Ysbytai Acíwt Nad Ydynt yn Rhai GIG

# TROSOLWG A THUEDDIADAU AR GYFER Y FFRAMWAITH YSBYTAI CAMHS




*Map 2 – Lleoliad daearyddol bras ysbytai sy'n gofalu am gleifion CAMHS- FFRAMWAITH YSBYTAI CAMHS 51*

## Darparwyr

Roedd 8 o gwmnïau, 8 o safleoedd a 36 o wardiau unigol yn darparu neu'n gallu darparu gwasanaeth o dan y Fframwaith Ysbytai CAMHS ar 31 Mawrth2022.

Mae'r Map yn dangos lleoliad daearyddol bras ysbytai sy'n gofalu am gleifion CAMHS.

# SEFYLLFA BRESENNOL

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 6 o gleifion yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai CAMHS, fel y dangosir yn Ffigur 36, sy'n 1 yn fwy nag yn 2020/2021.

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, roedd 22 o leoliadau newydd, 2 mewn gwasanaeth Diogelwch Isel ac 20 mewn gwasanaeth Acíwt.

## Math o wasanaeth

Ceir dwy haen o wasanaeth yn y Fframwaith Ysbytai CAMHS, sef ysbytai diogelwch isel ac ysbytai acíwt mewn ysbyty diogelwch isel.

## Ysbytai Diogelwch Isel

Darperir gwasanaethau diogelwch isel i'r cleifion hynny sydd ag
Anghenion cymhleth ac na ellir gofalu amdanynt yn ddiogel mewn unedau1
anniogel. Mae'r cleifion hyn yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl fel rheol ac yn peri lefel o risg i'w hunain ac i bobl eraill sy'n gofyn am fesurau diogelwch amgylcheddol arbenigol.

## Ysbytai Acíwt

Bwriedir i wasanaethau acíwt fod yn lleoliadau byrdymor ar gyfer asesu cyflym a thriniaeth acíwt, â drysau y gellir eu cloi.




*Ffigur 36: Derbyniadau fesul Math o Wasanaeth*

# TROSOLWG A THUEDDIADAU AR GYFER Y FFRAMWAITH YSBYTAI CAMHS

Mae Ffigur 37 yn dangos gweithgarwch (cyfanswm derbyn a rhyddhau) y Fframwaith Ysbytai CAMHS yn y tair blwyddyn lawn y mae wedi bod yn weithredol. Mae'n dangos y gostyngiad i weithgarwch ym mhob blwyddyn weithredu.




*Ffigur 37: Gweithgarwch Fframwaith Ysbytai CAMHS 2017-2021*

## Gwlad leoli

Mae mapio cleifion a oedd yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai CAMHS yn dangos bod 85% o gleifion yn derbyn gofal yn Lloegr a 15% yn derbyn gofal yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021.




## Pellter o'r cod post arwyddocaol

Mae'r GGSA yn dymuno sicrhau bod y Fframweithiau Cydweithredol Cenedlaethol, ble bynnag y bo'n bosibl a chan roi sylw dyledus i ansawdd, yn darparu lleoliadau sydd mor agos â phosibl i'r gymuned y mae cleifion yn ei dewis. O fewn y broses leoli, rydym yn ei gwneud yn orfodol bod y comisiynydd yn cofnodi 'cod post arwyddocaol' ar gyfer y claf a chyfrifir y pellter i'r darparwr o'r pwynt daearyddol hwn

- Derbyniwyd 1 (5%) claf i ddarparwr llai na 50 Milltir o'r cod post arwyddocaol.
- Lleolwyd 5 (23%) o gleifion rhwng 50 a 100 milltir o'r cod post arwyddocaol.
- Mae 16 (72%) o gleifion fwy na 100 milltir o'r cod post arwyddocaol.

# OVERVIEW AND TRENDS FOR CAMHS HOSPITAL FRAMEWORK

## Hyd arosiadau

Derbyniodd cyfanswm o 27 o gleifion sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai CAMHS a rhyddhawyd 21 rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

Cyfanswm hyd eu harosiadau gyda'u darparwr terfynol cyn cael eu rhyddhau fel y dangosir yn Ffigur 38 oedd:

- Roedd hyd arhosiad 85.7% (18) o gleifion yn llai na 6 mis.
- Roedd hyd arhosiad 14.3% (3) o gleifion rhwng 6 a 12 mis.
- Roedd hyd arhosiad 0 o gleifion rhwng 1 a 2 flynedd.




*Ffigur 38: Hyd Arosiadau CAMHS a Gwblhawyd fesul Math o Ofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022*

# CYNNAL ANSAWDD GOFAL

Ceir 25 o safonau wedi'u teilwra i Gymru yn seiliedig ar wasanaeth gorau, dysgu o brofiad ac arferion clinigol da ar draws 25 maes. Archwiliwyd dros 652 o safonau unigol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Mae Ffigur 39 yn nodi'r cyflawniad cyfartalog ar gyfer pob un o'r 25 maes yn y Fframwaith Ysbytai CAMHS a archwiliwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

| Standard Area | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Gwahaniaeth 2021-2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau Ystyrlon a Diwylliannol Briodol | 100% | 100% | 75% | 100% | 100% | - |
| Amgylchedd | 92% | 95% | 66% | 70% | 95% | +25% |
| Maetheg | 100% | 100% | 71% | 71% | 100% | +29% |
| Llywodraethu ac Atebolrwydd Cadarn | 65% | 97% | 69% | 0% | 88% | +88% |
| Gwyliau | 100% | 100% | 69% | 25% | 100% | +75% |
| Asesu Risg a Rheoli Risg | 75% | 100% | 55% | 20% | 85% | +65% |
| Diogelwch a Lles Cleifion | 90% | 98% | 71% | 42% | 82% | +40% |
| Ymyriadau ffisegol / Gwahanu | 83% | 86% | 60% | 33% | 88% | +55% |
| Ymyriadau Ffarmacolegol a Rheoli Meddyginiaethau | 83% | 100% | 71% | 54% | 91% | +37% |
| Cynllunio ac Ymateb Brys | 100% | 100% | 71% | 66% | 100% | +34% |
| Dyfeisiau Meddygol ac Offer Dadebru | 93% | 95% | 65% | 60% | 95% | +35% |
| Parchu Preifatrwydd, Urddas, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 100% | 100% | 72% | 67% | 94% | +27% |

*Ffigur 39: Safonau Ansawdd CAMHS – Cyflawniad Cyfartalog yn 2018-2022 (Yn Parhau Drosodd)*

Mae Ffigur 40 isod yn dangos y Safonau Ansawdd CAMHS – Cyflawniad Cyfartalog yn 2018-2022

| Maes safonol | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Gwahaniaeth 2021-2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 100% | 97% | 73% | 100% | 100% | - |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 97% | 92% | 69% | 80% | 93% | +13% |
| Ymweld a Chadw Cysylltiad | 100% | 100% | 75% | 75% | 100% | +15% |
| Arsylwadau Cleifion Cefnogol a Therapiwtig | 61% | 88% | 67% | 67% | 92% | +25 |
| Cofnodion Clinigol | 38% | 58% | 50% | 50% | 88% | +38 |
| Gwella Profiad Cleifion o Ofal, gan gynnwys Cwynion Ansawdd a Bodlonrwydd | 100% | 100% | 75% | 0% | 100% | +100% |
| Ymgysylltiad a Bodlonrwydd Cleifion | 71% | 86% | 67% | 0% | 96% | +96% |
| Staff | 69% | 92% | 71% | 9% | 89% | +80% |
| Iechyd Corfforol a Hybu Iechyd a Llesiant | 62% | 78% | 64% | 10% | 85% | +75% |
| Cyfarfod Tîm Amlddisgyblaeth | 100% | 88% | 75% | 25% | 94% | +69% |
| Cynllunio Gofal a Thriniaeth | 50% | 75% | 58% | 20% | 75% | +55% |
| Ymyriadau Seicolegol/Therapiwtig | 88% | 96% | 72% | 63% | 100% | +37% |
| Cynllunio Rhyddhad a Phontio i Wasanaethau Oedolion | 91% | 98% | 75% | 71% | 96% | -25% |

*Ffigur 40: Safonau Ansawdd CAMHS*

# TROSOLWG A THUEDDIADAU AR GYFER Y FFRAMWAITH YSBYTAI CAMHS

O'r 4 o adolygiadau, nid oedd angen unrhyw gamau pellach mewn 2(50%) a chyflwynwyd 2 (50%) Hysbysiad Gwella Perfformiad, ac o'r rhain rhoddodd y Darparwr sicrwydd yn 1 (50%) ohonynt bod yr holl gamau unioni wedi cael eu cymryd o fewn yr amserlen ddynodedig o ddeg diwrnod. Mewn 1 (50%) achos, ni ddarparwyr sicrwydd gan y Darparwr bod un neu fwy o gamau unioni wedi cael eu cymryd.

Fel rheol pan na fydd unrhyw gamau unioni wedi cael eu cymryd yn unol â'r amserlen ddynodedig, cyflwynir 'Cynllun Gwella Perfformiad wedi'i oruchwylio' a chaiff Sgôr Sicrwydd Ansawdd '3Q' y darparwyr ei addasu i adlewyrchu difrifoldeb y diffyg

## Sgoriau Sicrwydd Ansawdd

Derbyniwyd 22 o gleifion rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 a lleolwyd 100% o gleifion gyda darparwr yr oedd ganddo (ar yr adeg leoli) 'Sgôr Sicrwydd Ansawdd 3Q', fel y dangosir yn Ffigur 41 isod.




*Ffigur 41: Nifer y lleoliadau fesul Sgôr Sicrwydd Ansawdd*

Mae Ffigur 42 isod yn dangos y lleoliadau yn ôl sgôr sicrwydd ansawdd dros y pedair blynedd diwethaf.




*Ffigur 42: Lleoliad Sgôr Sicrwydd Ansawdd*

## Darparwyr yn y Pump Uchaf

Dangosir derbyniadau i'r darparwyr yn y pump uchaf rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 fesul Comisiynydd yn Ffigur 43.




*Ffigur 43: Lleoliadau yn ôl Sgôr Sicrwydd Ansawdd dros dair blynedd*

## Cydgysylltu Gofal

Mae'n hanfodol bod cydgysylltwyr gofal yn derbyn hysbysiadau electronig am ddigwyddiadau a bod y GGSA yn gallu cysylltu â nhw i drafod materion unigol. Er mwyn hwyluso hyn mae'n ofyniad i gofnodi enw cydgysylltydd/wyr gofal y cleifion wrth drefnu lleoliad. Yn 2021-22, roedd manylion cydgysylltydd gofal wedi'u cofnodi ar gyfer 100% o gleifion.

# Presenoldeb mewn Adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth

Cafwyd cyfanswm o 31 o adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth ar gyfer 13 o gleifion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Mae Ffigur 44 yn dangos presenoldeb neu ddiffyg presenoldeb* naill ai cydgysylltydd gofal a/neu gynrychiolydd arall o Gymru yn yr adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth a gynhaliwyd ar gyfer yr wyth o gleifion a oedd yn derbyn sicrwydd (ac yn gymwys ar gyfer adolygiad) rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.




*Ffigur 44: Presenoldeb mewn Adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth*

* Sylwer nad yw diffyg presenoldeb mewn adolygiadau yn dynodi diffyg cyswllt llwyr â'r claf, gan ei bod yn bosibl bod gweithwyr proffesiynol wedi ymweld â'r claf ar adegau eraill.

# DIGWYDDIADAU

Roedd cyfanswm o 1951 o ddigwyddiadau yn ymwneud â chleifion a oedd yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai CAMHS rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth2022. O'r digwyddiadau hyn:

- Dosbarthwyd 744 neu 38% yn ddibwys.
- Dosbarthwyd 1188 neu 61% yn fân.
- Dosbarthwyd 16 neu 1% yn gymedrol.
- Dosbarthwyd 2 neu 0% yn ddifrifol.
- Dosbarthwyd 1 neu 0% yn gritigol.

Mae Ffigur 45 yn dangos y 1,951 o ddigwyddiadau a hysbyswyd yn ôl difrifoldeb yn ymwneud â phedwar claf a oedd yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai CAMHS rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Er mwyn gallu cymharu niferoedd yn fwy cywir (gan y gallai fod gan fathau penodol o wasanaethau neu ddarparwyr fwy o gleifion) rydym yn cyfrifo'r enwadur yn ôl 'sawl diwrnod yr oedd gwely mewn uned wedi'i feddiannu gan glaf o Gymru', 'diwrnodau gwely wedi'i feddiannu' yw'r enw ar hyn.

# DIGWYDDIADAU

| Math o Ddigwyddiad | Dibwys | Mân | Cymedrol | Difrifol | Critigol | Cyfanswm y Digwyddiadau | Fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddygiad hunan-niweidiol / Hunan-laddiad | 449 | 1137 | 6 | 0 | 0 | 1592 | 707 |
| Cyflawnwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 133 | 32 | 3 | 0 | 0 | 168 | 75 |
| Cyflawnwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 77 | 8 | 1 | 0 | 0 | 86 | 38 |
| Tanseilio diogelwch / eitemau gwaharddedig | 51 | 4 | 0 | 0 | 0 | 55 | 24 |
| Dioddefwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 8 | 3 | 0 | 0 | 1 | 12 | 5 |
| Cyflawnwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 | 7 | 3 |
| Mynediad, derbyn, trosglwyddo, rhyddhau (gan gynnwys claf coll) – absennol heb ganiatâd | 5 | 0 | 0 | 1 | 0 | 6 | 3 |
| Dioddefwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | 5 | 2 |
| Meddyginiaeth | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 2 |
| Dioddefwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 2 |
| Salwch claf | 0 | 0 | 3 | 1 | 0 | 4 | 2 |
| Anaf i glaf yn deillio o ddamwain neu ddigwyddiad neu sydd heb ei esbonio. h.y. ANGHLINIGOL | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 | 2 |
| Anaf neu niwed i glaf yn deillio o unrhyw weithred neu hepgoriad yn ymwneud â Gofal a Thriniaeth, Triniaeth neu ymyrraeth glinigol. h.y. CLINIGOL | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Defnydd neu feddiant o sylwedd anghyfreithlon / Alcohol | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Dogfennau, cadw cofnodion, data a cyfreithiol, ac eiddo | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Cyfanswm | 744 | 1188 | 16 | 2 | 1 | 1,951 | 867 |

*Ffigur 45: Digwyddiadau a adroddwyd 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth2022*

# DIGWYDDIADAU

Cymhariaeth o ddigwyddiadau fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu rhwng 2020-2021 a 2021-2022 yn ôl math o ddigwyddiad yw Ffigur 46. Mae'r

ffigur yn dangos cynnydd sylweddol i'r digwyddiadau a hysbyswyd o ran Cyflawnwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol a thrais. Mae'r digwyddiadau a hysbyswyd o ran Ymddygiad hunan-niweidiol / Hunanladdiad wedi gostwng.

| | 2020-2021 | 2021-2022 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Digwyddiadau** | **1,027** | **1,951** | **924** |
| | nifer y digwyddiadau fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu | | |
| **Math o Ddigwyddiad** | **2020-2021** | **2021-2021** | **Gwahaniaeth** |
| Cyflawnwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 16 | 75 | +58 |
| Cyflawnwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 11 | 38 | +27 |
| Tanseilio diogelwch / eitemau gwaharddedig | 6 | 24 | +18 |
| Dioddefwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 1 | 5 | +4 |
| Mynediad, derbyn, trosglwyddo, rhyddhau (gan gynnwys claf coll) – absennol heb ganiatâd | 1 | 3 | +2 |
| Cyflawnwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 1 | 3 | +2 |
| Salwch claf | 1 | 2 | +1 |
| Dioddefwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 1 | 2 | +1 |
| Meddyginiaeth | 1 | 2 | +1 |
| Dogfennau, cadw cofnodion, data a cyfreithiol, ac eiddo | 0 | 0 | - |
| Defnydd neu feddiant o sylwedd anghyfreithlon / Alcohol | 0 | 0 | - |
| Anaf neu niwed i glaf yn deillio o unrhyw weithred neu hepgoriad yn ymwneud â Gofal a Thriniaeth, Triniaeth neu ymyrraeth glinigol. h.y. CLINIGOL | 1 | 0 | -1 |
| Dioddefwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 4 | 2 | -2 |
| Anaf i glaf yn deillio o ddamwain neu ddigwyddiad neu sydd heb ei esbonio. h.y. ANGHLINIGOL | 4 | 2 | -2 |
| Ymddygiad hunan-niweidiol / Hunan-laddiad | 716 | 707 | -9 |
| Cyfanswm | 767 | 867 | |

*Ffigur 46: Cymhariaeth o Nifer y digwyddiadau fesul 1000 o Ddiwrnodau Gwely wedi'i Feddiannu yn ôl Math o Ddigwyddiad 2020/2021 a 2021/2022*

# DIGWYDDIADAU

## Cwynion

Cafwyd 4 o gŵynion o dan y Fframwaith Ysbytai CAMHS rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.Cafwyd 3 o gŵynion yn 2020/21 a 0 yn 2019/20.Byddai rhai pryderon a godwyd gan gleifion wedi cael eu datrys trwy brosesu hysbysu mewnol.

## Diogelu

Mae'r GGSA yn monitro'r holl bryderon diogelu posibl yn ymwneud â chleifion sy'n derbyn gofal o dan y Fframwaith Ysbytai CAMHS. Hysbyswyd timau diogelu lleol am 44 o bryderon diogelu posibl rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 fel y dangosir yn Ffigur 47. Caiff y pryderon diogelu hyn eu dilysu wedyn gan dimau diogelu lleol, fel rhai sy'n bodloni eu trothwy diogelu lleol ('wedi'u cadarnhau'), neu beidio ('heb eu cadarnhau'). Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, cadarnhawyd un (2%) pryder diogelu ac roedd 43 (98%) heb eu cadarnhau.




*Ffigur 47: Pryderon Diogelu a hysbyswyd 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022*

## Gwariant y Fframwaith Ysbytai CAMHS

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gwariant Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru drwy'r Fframwaith Ysbytai CAMHS yn gost sail flynyddol o £1,955,848 a ddangosir yn Ffigur 48 isod.

Cyfeiriwch at dudalen 50 ar gyfer y dulliau ariannol ar gyfer y fframwaith ysbytai CAMHS.




*Ffigur 48: Gwariant sail flynyddol fesul sefydliad ar 31 Mawrth 2021*

# ADRAN 4

## Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Oedolion (18 oed a hŷn) mewn Cartrefi Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Chartrefi Gofal â Nyrsio ar gyfer y GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru

# TROSOLWG A THUEDDIADAU CENEDLAETHOL




*Map 3 –Lleoliad daearyddol bras cartrefi gofal yn y Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol*

## Darparwyr

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 116 o ddarparwyr a 335 o gartrefi gofal unigol yn darparu neu'n gallu darparu gwasanaethau yn rhan o'r Fframwaith Cartrefi Gofal.

Mae'r Map yn dangos lleoliad daearyddol bras cartrefi gofal yn y Fframwaith.

# TUEDDIAD CENEDLAETHOL

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 370 o drigolion Cymru yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Cartrefi Gofal. Mae hyn o gymharu â 309 o drigolion y flwyddyn cynt, sy'n cyfateb i gynnydd o 20%.

Mae Ffigur 49 yn dynodi nifer y lleoliadau fesul sefydliad comisiynu arweiniol, fel y'i cofnodwyd ar yr adeg leoli, rhwng 1 Hydref 2016 a 31 Mawrth 2022.




*Yn cynnwys 1 Hydref 2016 (dechrau'r Fframwaith) a 31 Mawrth 2017.

*Ffigur 49: Nifer y Lleoliadau rhwng 1 Hydref 2016 a 31 Mawrth2022*

# TROSOLWG CENEDLAETHOL

Ceir naw gwahanol fath o wasanaeth y gellir eu comisiynu drwy'r Fframwaith Cartrefi Gofal.

Mae Ffigur 50 yn dangos nifer y lleoliadau fesul math o wasanaeth rhwng 1 Hydref 2016 a 31 Mawrth 2022.




*Ffigur 50: Lleoliadau fesul Math o Wasanaeth rhwng 1 Hydref 2016 a 31 Mawrth 2022*

# TROSOLWG CENEDLAETHOL

Y 'Comisiynydd Arweiniol' yw'rsefydliad comisiynu sy'n gwneud cais am leoliad ar gyfer preswylydd wedi'i 'gyd-gomisiynu' (iechyd ac awdurdod lleol).

Mae Ffigur 51 yn dangos y lleoliadau fesul sefydliad comisiynu arweiniol rhwng 1 Hydref 2016 a 31 Mawrth 2022.




*Ffigur 51: Lleoliad fesul Comisiynydd Arweiniol rhwng 1 Hydref 2016 a 31 Mawrth 2022*

# TROSOLWG CENEDLAETHOL

Mae Ffigur 52 yn dangos, o'r 370 o drigolion Cymru a oedd yn derbyn sicrwydd ar 31 Mawrth 2022 o dan y Fframwaith Cartrefi Gofal, bod gan 20% o drigolion Awdurdod Lleol, 33% Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol a 47% Bwrdd Iechyd fel comisiynydd arweiniol.




*Ffigur 52: Cyfran y Trigolion fesul Comisiynydd Arweiniol 1 Hydref 2016 a 31 Mawrth 2022*

Mae Ffigur 53 yn dangos y sefydliad penodol a gomisiynodd leoliadau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.




*Ffigur 53: Lleoliadau fesul Comisiynydd Arweiniol 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2022*

# DOSBARTHIAD GWRYWOD A BENYWOD

O'r 370 o drigolion a oedd yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar 31 Mawrth 2022, roedd 62%(228) yn wrywaidd a 38% (142) yn fenywaidd.

Mae Ffigur 54 yn dangos y dosbarthiad o drigolion gwrywaidd a benywaidd a oedd yn derbyn sicrwydd o'i gymharu â'r llynedd.




*Ffigur 54: Dosbarthiad Gwrywod a Benywod*

O'r 370 o gleifion a oedd yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Ysbytai Oedolion ar 31 Mawrth 2021, roedd 99% (365) wedi'u lleoli yng Nghymru ac 1% (5) wedi'u lleoli yn Lloegr

Ers 2020-21 mae nifer y cleifion sydd wedi'u lleoli yng Nghymru wedi cynyddu 23% ac mae'r nifer sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi gofal yn Lloegr wedi gostwng 28%.

Mae Ffigur 55 yn dangos dosbarthiad y trigolion a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru neu Loegr ar 31 Mawrth 2022.




*Ffigur 55: Dosbarthiad Daearyddol*

# PELLTER O'R COD POST ARWYDDOCAOL

Mae'r Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd a Gwella yn dymuno sicrhau bod y Fframweithiau Cydweithredol Cenedlaethol, ble bynnag y bo'n bosibl a chan roi sylw dyledus i ansawdd, yn darparu lleoliadau sydd mor agos â phosibl i'r gymuned y mae cleifion yn ei dewis. O fewn y broses leoli, rydym yn ei gwneud yn orfodol bod y comisiynydd yn cofnodi 'cod post arwyddocaol' ar gyfer y claf a chyfrifir y pellter i'r darparwr o'r pwynt daearyddol hwn. Mae Ffigur 56 yn dangos pellter lleoliad o'r cod post arwyddocaol fesul math o ofal.

- Roedd 7% o drigolion yn derbyn gofal rhwng 0 a 10 milltir.
- Roedd 15% o drigolion yn derbyn gofal rhwng 11 ac 20 milltir.
- Roedd 5% o drigolion yn derbyn gofal rhwng 21 a 30 milltir.
- Roedd 6% o drigolion yn derbyn gofal rhwng 31 a 40 milltir.
- Roedd 4% o drigolion yn derbyn gofal rhwng 41 a 50 milltir.
- Roedd 4% o drigolion yn derbyn gofal 51 neu fwy o filltiroedd o'r cod post arwyddocaol.




*Ffigur 56: Pellter y Lleoliad o God Post Arwyddocaol Trigolion fesul Math o Ofal*

# CYNNAL ANSAWDD GOFAL

Adolygwyd 5,955 o safonau unigol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth2022. Mae Ffigur 57 yn nodi'r cyflawniad cyfartalog ar gyfer pob un o'r wyth maes safonau yn y Fframwaith Cartrefi Gofal.

**Ffaith GGSA**

**Adolygwyd 5,955 o safonau unigol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022**

**TWYLLO FFAITH**

| Maes Safon | 2020-21 | 2021-22 | Gwahaniaeth 2021-2022 |
|---|---|---|---|
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i wella a chadw'n iach | 81% | 93% | +12% |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i wneud cynnydd a symud ymlaen | 85% | 88% | +3% |
| Gofynion gweithredu a TG | 85% | 92% | +7% |
| Cydymffurfiad â rheoliadau | 91% | 96% | +5% |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd a chymuned y preswylwyr eraill i werthfawrogi ei gilydd | 95% | 97% | +2% |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i fod yn iach | 95% | 99% | +4% |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i fod yn ddiogel | 93% | 96% | +3% |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i deimlo'n gartrefol | 96% | 96% | - |

*Ffigwr 57: Cyflawni Safonau Cartrefi Gofal rhwng 1 Hydref 2020 a 31 Mawrth 2022*

# ADOLYGIADAU SICRWYDD ANSAWDD

Adolygodd y GGSA 153 o leoliadau gofal mewn 103 o gartrefi gofal yn 2021-22. Mae hyn yn cyfateb i 31% o'r cartrefi gofal yn y Fframwaith Cartrefi Gofal a 25% o leoliadau gofal lle mae un o drigolion Cymru wedi cael ei dderbyn.

Canlyniad yr adolygiadau o'r 10 o gartrefi gofal oedd bod 55 (53%) o gartrefi gofal angen un neu fwy o gamau unioni ac nad oedd 48 (47%) angen unrhyw gamau unioni.

Cyflwynwyd 'Hysbysiad Gwella Perfformiad' i'r 55 o gartrefi gofal lle'r oedd angen un neu fwy o gamau unioni. Ar draws yr holl Hysbysiadau Gwella Perfformiad roedd cyfanswm o 341 o gamau gweithredu unigol (dangosir enghraifft yn Ffigur 58).

| Maes: Meddyginiaeth | | |
|---|---|---|
| **Safon Gofal** | **Canlyniad Archwilio** | **Sicrwydd sy'n Ofynnol** |
| Os bydd methiant i ddarparu, neu i'r Preswylydd dderbyn neu gael unrhyw feddyginiaeth a ragnodwyd unigol, caiff y rheswm am hyn ei gofnodi yn eglur | Nodwyd nifer o enghreifftiau lle na llofnodwyd bod meddyginiaeth a nodwyd ar y Cofnod Rhoi Meddyginiaethau wedi cael ei rhoi yn unol â'r cyfarwyddiadau. Er enghraifft, roedd Laxido wedi'i ragnodi yn ddyddiol ar gyfer un unigolyn ond nid oedd yn cael ei roi – nid oedd unrhyw reswm wedi'i nodi ar y Cofnod Rhoi Meddyginiaethau. | Trefnwyd hyfforddiant meddyginiaeth pellach i staff allweddol sy'n rhoi meddyginiaeth a chwblhawyd llyfrynnau asesu meddyginiaeth. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau gan ddirprwy a rheolwr i sicrhau cydymffurfiad. |

*Ffigur 58: Enghraifft o Gam Gwella y Fframwaith Cartrefi Gofal*

# ADOLYGIADAU SICRWYDD ANSAWDD

O'r 103 o adolygiadau, cynhaliodd 48 (46.6%) eu sgoriau Q, cyflwynwyd 55 (53.4%)o Hysbysiadau Gwella Perfformiad, o'r achosion y rhoddodd y darparwr sicrwydd bod yr holl gamau unioni wedi cael eu cymryd o fewn yr amserlen ddynodedig o ddau ddeg un diwrnod.

Mewn 13 (13%) o achosion, roddodd y darparwr sicrwydd bod un neu fwy o gamau unioni wedi cael eu cymryd ac felly cyflwynwyd cynllun gwella perfformiad wedi'u oruchwylio yn arwain at addasu sgôr sicrwydd ansawdd Q y darparwyr i adlewyrchu difrifoldeb y diffygion.

Roedd 1 (1%) achos yn cael ei brosesu ar adeg yr adroddiad hwn.

Yn ystod 2021-2022:
Cymerwyd 1Q oddi wrth 5 darparwr.
Cymerwyd 2Q oddi wrth 8 darparwr.

## Sgoriau Sicrwydd Ansawdd

Comisiynwyd 315 o leoliadau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yn rhan o'r Fframwaith Cartrefi Gofal. O'r rhai a leolwyd, lleolwyd 100% o breswylwyr gyda darparwr a oedd wedi cynnal y Sgôr Sicrwydd Ansawdd '3Q'. Mae Ffigur 59 yn dangos y preswylwyr a leolwyd gyda darparwr a oedd wedi cynnal y Sgôr Sicrwydd Ansawdd '3Q'.




*Ffigur 59: preswylwyr a leolwyd gyda darparwr a oedd wedi cynnal y Sgôr Sicrwydd Ansawdd '3Q'*

## Cydgysylltu Gofal

Mae'n hanfodol bod cydgysylltwyr gofal yn derbyn hysbysiadau electronig am ddigwyddiadau a bod y GGSA yn gallu cysylltu â nhw i drafod materion unigol. Er mwyn hwyluso hyn, ceir gofyniad i gofnodi enw cydgysylltydd/wyr gofal y preswylydd wrth drefnu lleoliad. Yn 2021-22, roedd manylion cydgysylltydd gofal wedi'u cofnodi ar gyfer 100% o breswylwyr.



# PRESENOLDEB MEWN ADOLYGIADAU CYNLLUN GOFAL A THRINIAETH / CYNLLUN CYMORTH BLYNYDDOL

Roedd 283 o Adolygiadau Cynllun Gofal a Thriniaeth / Cynllun Cymorth Blynyddol wedi'u cofnodi rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ar gyfer 168 o breswylwyr a leolwyd am fwy na blwyddyn. Mae Ffigur 60 yn dangos presenoldeb neu ddiffyg presenoldeb* naill ai cydgysylltydd gofal a/neu gynrychiolydd arall o Gymru yn yr adolygiadau hyn a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Mae Ffigur 60 yn dangos presenoldeb neu ddiffyg presenoldeb* cydgysylltydd gofal a / neu gynrychiolydd arall o Gymru mewn Adolygiad Cynllun Gofal a Thriniaeth / Cymorth a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ar gyfer 168 o breswylwyr a oedd yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Cartrefi Gofal ac wedi cael eu lleoli ers dros flwyddyn.




*Ffigur 60: presenoldeb neu ddiffyg presenoldeb* mewn Adolygiad Cynllun Gofal a Thriniaeth/Cymorth rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022*

* Sylwer nad yw diffyg presenoldeb mewn adolygiadau yn dynodi diffyg cyswllt llwyr â'r preswylydd, gan ei bod yn bosibl bod gweithwyr proffesiynol wedi ymweld â'r preswylydd ar adegau eraill

# DIGWYDDIADAU

Roedd cyfanswm o 5,908 o ddigwyddiadau yn ymwneud â phreswylwyr a oedd yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Cartrefi Gofal. Er mwyn gallu cymharu niferoedd yn fwy cywir (gan y gallai fod gan fathau penodol o wasanaethau neu ddarparwyr fwy o gleifion) rydym yn cyfrifo'r enwadur yn ôl 'sawl diwrnod yr oedd gwely mewn uned wedi'i feddiannu gan breswylydd o Gymru'. 'Diwrnodau gwely wedi'i feddiannu' yw'r enw ar hyn. Caiff y niferoedd eu lluosi gyda 1000 wedyn i gynhyrchu sgôr cytbwys gan ddefnyddio 100 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu fel meincnod.

O'r digwyddiadau hyn:

- Dosbarthwyd 2,778 neu 47% yn ddibwys.
- Dosbarthwyd 2,634 neu 45% yn fân.
- Dosbarthwyd 428 neu 7% yn gymedrol.
- Dosbarthwyd 52 neu 1% yn ddifrifol.
- Dosbarthwyd 16 neu 0% yn gritigol.

Mae Ffigur 61 yn dangos nifer y digwyddiadau fesul diwrnod gwely wedi'i feddiannu.

| Math o Ddigwyddiad | Dibwys | Mân | Cymedrol | Difirfol | Critigol | Cyfanswm y Digwyddiadau | Fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawnwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 920 | 1294 | 96 | 7 | 0 | 2,317 | 17.4 |
| Cyflawnwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 861 | 643 | 65 | 2 | 0 | 1,571 | 11.8 |
| Ymddygiad hunan-niweidiol / Hunan-laddiad | 287 | 332 | 112 | 6 | 1 | 738 | 5.5 |
| Anaf i breswylydd yn deillio o ddamwain neu ddigwyddiad neu sydd heb ei esbonio | 199 | 94 | 25 | 1 | 3 | 322 | 2.4 |
| Mynediad, derbyn, trosglwyddo, rhyddhau (gan gynnwys preswylydd coll) – absennol heb ganiatâd | 71 | 30 | 37 | 5 | 0 | 143 | 1.1 |
| Dioddefwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 61 | 54 | 9 | 0 | 0 | 124 | 0.9 |
| Meddyginiaeth | 81 | 51 | 13 | 1 | 0 | 146 | 1.1 |
| Defnydd neu feddiant o sylwedd anghyfreithlon | 25 | 76 | 5 | 0 | 0 | 106 | 0.8 |

*Ffigur 61: : Nifer y Digwyddiadau fesul 1000 o Ddiwrnodau Gwely wedi'i Feddiannu (Yn parhau drosodd)*

# DIGWYDDIADAU

| Math o Ddigwyddiad | Dibwys | Mân | Cymedrol | Difrifol | Critigol | Cyfanswm y Digwyddiadau | Fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawnwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 54 | 24 | 5 | 1 | 0 | 84 | 0.6 |
| Salwch preswylydd | 0 | 0 | 54 | 29 | 12 | 95 | 0.7 |
| Dioddefwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol a thrais | 176 | 20 | 2 | 0 | 0 | 198 | 1.5 |
| Diffyg cydymffurfiad â thelerau preswylio | 14 | 11 | 0 | 0 | 0 | 25 | 0.2 |
| Anaf neu niwed i breswylydd yn deillio o unrhyw weithred neu hepgoriad yn ymwneud â Gofal a Thriniaeth, Triniaeth neu ymyrraeth glinigol. | 13 | 0 | 3 | 0 | 0 | 16 | 0.1 |
| Dioddefwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 10 | 2 | 2 | 0 | 0 | 14 | 0.1 |
| Dogfennau, cadw cofnodion, data a cyfreithiol, ac eiddo | 6 | 3 | 0 | 0 | 0 | 9 | 0.1 |
| Cyfanswm | 2,778 | 2,634 | 428 | 52 | 16 | 5,908 | 44.4 |

*Ffigur 61: Nifer y Digwyddiadau fesul 1000 o Ddiwrnodau Gwely wedi'i Feddiannu*

# DIGWYDDIADAU

Mae Ffigur 62 isod yn cymharu digwyddiadau fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu, sylwer y cynnydd o 20% i nifer y preswylwyr a leolwyd, a chymhariaeth o ddigwyddiadau o'r Llynedd yn ôl Math o Ddigwyddiad fesul 1000 o Ddiwrnodau Gwely wedi'i Feddiannu

| | 2020-2021 | 2021-2022 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Digwyddiadau** | 4,339 | 5,908 | 1,569 |
| | Nifer y digwyddiadau fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu | | |
| **Math o Ddigwyddiad** | 2020-2021 | 2021-2022 | Gwahaniaeth * |
| Cyflawnwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol, Trais | 15.7 | 17.4 | +1.7 |
| Cyflawnwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 12.0 | 11.8 | -0.2 |
| Ymddygiad hunan-niweidiol / Hunan-laddiad | 6.3 | 5.5 | -0.7 |
| Anaf i breswylydd yn deillio o ddamwain neu ddigwyddiad neu sydd heb ei esbonio. | 2.8 | 2.4 | -0.4 |
| Mynediad, derbyn, trosglwyddo, rhyddhau (gan gynnwys preswylydd coll) – absennol heb ganiatâd | 1.6 | 1.1 | -0.5 |
| Dioddefwr cam-drin geiriol, bygythiadau neu fwlio | 1.6 | 0.9 | -0.6 |
| Meddyginiaeth | 1.4 | 1.1 | -0.4 |
| Defnydd neu feddiant o sylwedd anghyfreithlon | 0.9 | 0.8 | -0.1 |
| Cyflawnwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 0.7 | 0.6 | -0.1 |
| Salwch preswylydd | 0.7 | 0.7 | - |
| Dioddefwr ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, sy'n gorfforol ymosodol a thrais | 0.6 | 1.5 | +0.9 |
| Diffyg cydymffurfiad â thelerau preswylio | 0.3 | 0.2 | -0.1 |
| Anaf neu niwed i breswylydd yn deillio o unrhyw weithred neu hepgoriad yn ymwneud â Gofal a Thriniaeth, Triniaeth neu ymyrraeth glinigol. | 0.2 | 0.1 | -0.1 |
| Dioddefwr cam-drin rhywiol / trais rhywiol | 0.1 | 0.1 | - |
| Dogfennau, cadw cofnodion, data a cyfreithiol, ac eiddo. | 0.0 | 0.1 | - |

*Ffigur 62: yn cymharu digwyddiadau fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu.*

**Talgrynnwyd y golofn Gwahaniaeth i'r rhif degol agosaf*

# DIGWYDDIADAU

Mae Ffigur 63 isod yn dangos nifer y digwyddiadau yn ôl math o wasanaeth a fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu, a Digwyddiadau yn ôl Math o Gartref Gofal a 1000 o Ddiwrnodau Gwely wedi'i Feddiannu

| Math o Wasanaeth | Dibwys | Mân | Cymedrol | Difrifol | Critigol | Cyfanswm y Digwyddiadau | Fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cartref Gofal, anableddau dysgu, â staffio parhaus | 1,693 | 1586 | 64 | 11 | 4 | 3,358 | 25.23 |
| Cartref Gofal, iechyd meddwl / anableddau dysgu, â staffio parhaus | 375 | 539 | 171 | 6 | 1 | 1,092 | 8.20 |
| Cartref Gofal, iechyd meddwl, â staffio parhaus | 341 | 349 | 120 | 17 | 4 | 831 | 6.24 |
| Cartref Gofal â nyrsio, iechyd meddwl, â staffio parhaus | 236 | 127 | 47 | 15 | 6 | 431 | 3.24 |
| Cartref Gofal â nyrsio, anableddau dysgu, â staffio parhaus | 86 | 7 | 0 | 2 | 0 | 95 | 0.71 |
| Cartref Gofal â nyrsio, iechyd meddwl / anableddau dysgu, â staffio parhaus | 44 | 14 | 21 | 1 | 1 | 81 | 0.61 |
| Cartref Gofal, iechyd meddwl/ anableddau dysgu, heb staffio parhaus | 2 | 8 | 4 | 0 | 0 | 14 | 0.11 |
| Cartref Gofal, iechyd meddwl, heb staffio parhaus | 1 | 4 | 1 | 0 | 0 | 6 | 0.05 |
| Cyfanswm* | 2,778 | 2,634 | 428 | 52 | 16 | 5,908 | 44.39 |

**Ni fu unrhyw leoliadau i leoliadau gofal CS-2: Cartref Gofal, anableddau dysgu, heb staffio parhaus*

*Mae Ffigur 63: yn dangos nifer y digwyddiadau fesul math o wasanaeth*

# DIGWYDDIADAU

Mae Ffigur 64 isod yn dangos nifer y digwyddiadau yn ôl math o wasanaeth a fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu o'i chymharu â'r llynedd a chymhariaeth o Ddigwyddiadau o'r Llynedd yn ôl Math o Gartref Gofal a fesul 1000 o Ddiwrnodau Gwely wedi'i Feddiannu

| | 2020-2021 | 2021-2022 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Digwyddiadau** | 4,339 | 5,908 | 1,569 |
| | Nifer y digwyddiadau fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddianu | | |
| **Math o Wasanaeth** | 2020-2021 | 2021-2022 | Gwahaniaeth |
| Cartref Gofal, anableddau dysgu, â staffio parhaus | 18.4 | 25.23 | +6.8 |
| Cartref Gofal, iechyd meddwl / anableddau dysgu, â staffio parhaus | 10.4 | 8.20 | -2.2 |
| Cartref Gofal, iechyd meddwl, â staffio parhaus | 9.5 | 6.24 | -3.3 |
| Cartref Gofal â nyrsio, iechyd meddwl, â staffio parhaus | 4.4 | 3.24 | -1.2 |
| Cartref Gofal â nyrsio, anableddau dysgu, â staffio parhaus | 0.9 | 0.71 | -0.2 |
| Cartref Gofal â nyrsio, iechyd meddwl / anableddau dysgu, â staffio parhaus | 0.6 | 0.61 | - |
| Cartref Gofal, iechyd meddwl / anableddau dysgu, heb staffio parhaus | N/A | 0.11 | |
| Cartref Gofal, Iechyd Meddwl, â Staffio Parhaus | 0.6 | 0.05 | -0.6 |

*Ffigur 64: yn dangos nifer y digwyddiadau yn ôl math o wasanaeth a fesul 1000 o ddiwrnodau gwely wedi'i feddiannu*

# CWYNION

Mae Ffigur 65 yn nodi manylion y 38 o gŵynion a hysbyswyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ar gyfer pob un o'r naw pennawd cwynion gan breswylwyr a oedd yn derbyn sicrwydd yn rhan o'r Fframwaith Cartrefi Gofal. Mae'r cwynion wedi'u categoreiddio yn erbyn matrics 53 pwynt wedi'i deilwra o naw maes cwynion ag is-gategorïau ym mhob un ac wedi'u monitro gan y GGSA i dynnu sylw at feysydd ymchwilio neu welliant.

Mae Ffigur 65 yn dangos yr hysbyswyd am 38 o gŵynion rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, sy'n gynnydd o 280% o'r 10 a hysbyswyd y llynedd.

- Dosbarthwyd 53% (20) fel Ymddygiad preswylydd arall yn 2021-22 o'i gymharu â 40% (5) yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 26% (10) fel Agwedd / Ymddygiad Staff yn 2021-22 o'i gymharu â 50% (5) yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 5% (2) fel Triniaeth Glinigol yn 2021-22 o'i gymharu â 10% (1) yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 13% (5) fel Gwasanaethau Gwesty yn 2021-22 ac roedd hyn yn gynnydd o 0 yn 2020-21
- Dosbarthwyd 3 (1) fel Cyfathrebu yn 2021-22 ac roedd hyn yn gynnydd o 0 yn 2020-21
- Ni chofnodwyd unrhyw gŵynion ar gyfer Cyfreithiol, Protocolau Cartref Gofal, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Eiddo Cleifion yn 2021-2022




*Ffigur 65: Cymhariaeth o Gŵynion o 2019-2020, 2020-2021 a 2021-2022*

# DIOGELU

Mae Ffigur 66 yn dangos y 254 o bryderon diogelu a hysbyswyd i dimau diogelu lleol a oedd yn ymwneud â phreswylwyr a oedd yn derbyn sicrwydd o dan y Fframwaith Cartrefi Gofal rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth 2022.

Caiff y pryderon diogelu hyn eu dilysu wedyn gan dimau diogelu lleol, fel rhai sy'n bodloni eu trothwy diogelu lleol ('wedi'u cadarnhau'), neu beidio ('heb eu cadarnhau'). Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, cadarnhawyd 69 (27%) pryder diogelu ac roedd 185 (73%) heb eu cadarnhau.




*Ffigur 66: Pryderon Diogelu a Hysbyswyd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 (rhestrir y mathau o wasanaethau a phryderon a hysbyswyd yn unig)*

Gall pryderon diogelu fod yn gam-drin corfforol, yn gam-drin rhywiol, yn gam-drin seicolegol, yn gam-drin ariannol neu faterol ac yn esgeuluso a hepgoriadau.

Mae Ffigur 67 yn cymharu'r math o bryder diogelu a hysbyswyd gyda'r llynedd. Roedd cynnydd ym mhob categori.




*Ffigur 67: Cymhariaeth o Gategorïau Diogelu yn 2019/2020, 2020/2021 a 2021/2022*

- Dosbarthwyd 7% (19) fel cam-drin rhywiol yn 2021-22 o'i gymharu â 2% (2) yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 44% (111) yn fel cam-drin corfforol yn 2021-22 o'i gymharu â 31% (28) yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 19% (49) fel Esgeulustod yn 2021-22 o'i gymharu â 47% 42) yn 2020-21.
- Dosbarthwyd 4% (9) fel cam-drin ariannol yn 2021-22 o'i gymharu â 5% (4) yn2020-21.
- Dosbarthwyd 26% (66) fel cam-drin emosiynol/seicolegol yn 2021-22 o'i gymharu â 15% (13) yn 2020-21.

# CANLYNIADAU GOFAL PRESWYLWYR

Mae'r GGSA wedi datblygu chwe mesur canlyniad lefel preswylydd o'r enw Canlyniadau Gofal Preswylwyr (RCOs). Caiff y rhain eu crynhoi, eu dadansoddi a'u dilysu gan y GGSA ar gyfer bob preswylydd yn dri misol er mwyn:

- Sicrhau mai canlyniadau cadarnhaol i unigolion yw pwyslais y ddarpariaeth o ofal.
- Cymharu cyflawniad canlyniadau ar draws darparwyr sy'n darparu gofal tebyg.
- Dynodi'r materion a allai fod angen camau unioni.
- Dynodi lle ceir potensial i wella effeithiolrwydd gofal.

Ategir pob RCO gan 'ganllawiau cyflawni', a dangosir enghraifft o'r rhain isod ar gyfer y chweched RCO 'Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i wneud cynnydd a symud ymlaen'.

| Canlyniadau Gofal Preswylwyr | Canllawiau Cyflawni |
|---|---|
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i wneud cynnydd a symud ymlaen | A. Sefydlwyd lefel a chymysgedd sgiliau digonol a diogel o Staff bob amser i bob Lleoliad Gofal sicrhau bod anghenion y Preswylydd yn cael eu diwallu a;<br><br>B. A.Mae gweithgarwch arfaethedig y Preswylydd y cytunwyd arno yn seiliedig ar leihau dibyniaeth a chynyddu annibyniaeth yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |

Ceir chwe RCO a adroddir bob tri mis ar gyfer pob preswylydd. Mae Ffigur 68 yn dangos canran y Cyflawniad RCOs o'i Gymharu â'r Llynedd.

- Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i fod yn ddiogel.
- Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i aros gartref.
- Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd a'r gymuned preswylwyr i werthfawrogi ei gilydd.
- Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i fod yn iach.
- ynorthwyodd y darparwr y preswylydd i wella a chadw'n iach.
- Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i wneud cynnydd a symud ymlaen.

| | % o RCOs wedi'u cofnodi wedi cyflawni | | |
|---|---|---|---|
| Canlyniadau Gofal Preswylwyr | 2020/2021 | 2021/2022 | Gwahaniaeth |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i fod yn ddiogel. | 100% | 98% | -2% |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i deimlo'n gartrefol. | 99% | 99% | - |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd a chymuned y preswylwyr eraill i werthfawrogi ei gilydd. | 76% | 97% | +21% |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i fod yn iach. | 100% | 98% | -2% |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i wella a chadw'n iach. | 99% | 99% | - |
| Cynorthwyodd y darparwr y preswylydd i wneud cynnydd a symud ymlaen. | 98% | 98% | - |

*Ffigur 68: Cyflawniad Canlyniadau Gofal Preswylwyr o'i Gymharu â'r Llynedd*

# Gwariant

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gwariant GIG Cymru drwy'r Fframwaith Cartrefi Gofal yn gost sail flynyddol o £35,706,126 a chynnydd o 15% o'r flwyddyn gynt. Mae Ffigur 69 isod yn dangos y gwariant fesul math o fframwaith dros y tair blynedd flaenorol.




Sylwer: dangosir gwariant fesul comisiynydd arweiniol neu leoliadau a gyd-gomisiynwyd ac efallai na fyddant yn adlewyrchu trefniadau ariannol unigol pob preswylydd, gan gynnwys cyllid wedi'i rannu.

Ffigur 69: Gwariant Sail Flynyddol y Fframwaith Cartrefi Gofal fesul Comisiynydd Arweiniol

# ADRAN 5

## Gwaith arall y gofynnwyd amdano neu a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth Gwella Sicrwydd Ansawdd

# GWAITH ARALL Y GOFYNNWYD AMDANO NEU A GOMISIYNWYD GAN Y GGSA

Er mai prif swyddogaeth y Gwasanaeth Gwella Sicrwydd Ansawdd yw rheoli'r tri Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol, mae gwahanol sefydliadau yng Nghymru hefyd wedi comisiynu'r gwasanaeth i gynnal nifer o wahanol fathau o adolygiadau. Yn y cyfnod adolygu olaf hwn, mae'r GGSA wedi cynnal:




Comisiynwyd yr Adolygiad Cenedlaethol hwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn cael dealltwriaeth o'r materion sy'n arwain y cyhoedd i ddefnyddio gwasanaethau brys pan fyddant yn dioddef pryderon iechyd a/neu les meddwl.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2022 ac mae ar gael yn: https://nccu.nhs.wales/qais/national-reviews/making-days-count/

# CYDNABYDDIAETHAU

Eiddo'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol yw'r adroddiad hwn; ni ddylid ei gopïau yn gyfan gwbl na'n rhannol heb ganiatâd pendant yr awdur.

Os hoffech ragor o wybodaeth am waith yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol, Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd a Gwella GIG Cymru, y System Sicrwydd a Pherfformiad Comisiynu Gofal (CCAPS) neu unrhyw fanylion eraill sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn, cysylltwch â:

Yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol,
Uned 1,
Cwrt Charnwood,
Parc Nantgarw, Caerdydd,
CF15 7QZ

Ffôn: 01443 744928
E-bost: GIG.NCCU@wales.nhs.uk
Gwefan: www.nccu.nhs.wales/qais

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg
Dyluniwyd yr adroddiad hwn gan Wasanaethau Corfforaethol yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol